



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 995 (Cy.81)

2009 No. 995 (W.81)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol
(Atal ac Adfer) (Cymru)
2009

The Environmental Damage
(Prevention and Remediation)
(Wales) Regulations 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwydddeb 2004/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar atebolrwydd amgylcheddol parthed atal ac adfer difrod amgylcheddol.

These Regulations implement Directive 2004/35/EC of the European Parliament and of the Council on environmental liability with regard to the prevention and remedying of environmental damage.

Maent yn gymwys i ddifrod i rywogaethau a warchodir, cynefinoedd naturiol, safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, dŵr a thir (rheoliad 4).

They apply to damage to protected species, natural habitats, sites of special scientific interest, water and land (regulation 4).

Maent yn cael eu gorfodi gan y cyrff a bennir yn rheoliadau 10 ac 11.

They are enforced by the bodies specified in regulations 10 and 11.

Maent yn darparu, ar gyfer gweithgareddau economaidd penodol, bod rhaid i'r gweithredwr, pan fo risg agos o ddifrod amgylcheddol, gymryd camau i'w atal, ac os yw wedi digwydd, rhaid iddo atal difrod pellach. Pan fo difrod wedi digwydd, rhaid i'r awdurdod gorfodi asesu'r difrod a chanfod mesurau adfer. Rhaid iddo wedyn gyflwyno hysbysiad adfer i'r gweithredwr cyfrifol gan bennu pa waith adfer y mae ei angen (Rhan 3).

They provide that, for certain economic activities, where there is an imminent risk of environmental damage, the operator must take steps to prevent it, and if it has occurred must prevent further damage. Where damage has occurred the enforcing authority must assess the damage and identify remedial measures. It must then serve a remediation notice on the responsible operator specifying what remediation is required (Part 3).

Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi (Rhan 4).

They make provision for enforcement (Part 4).

Mae torri darpariaethau a bennir yn y Rheoliadau yn dramgwydd y gellir ei gosbi—

Breach of specified provisions of the Regulations is an offence punishable—

- (a) ar gollfarn ddiannod, â dirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau; neu

- (a) on summary conviction, with a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months or both; or

(b) ar gollfarn ar ddiad, â dirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi a gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(b) on conviction on indictment, with a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both.

A regulatory impact assessment has been prepared and copies are available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2009 Rhif 995 (Cy.81)

2009 No. 995 (W.81)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol
(Atal ac Adfer) (Cymru)
2009

The Environmental Damage
(Prevention and Remediation)
(Wales) Regulations 2009

Gwnaed 11 Ebrill 2009
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 15 Ebrill 2009
Yn dod i rym 6 Mai 2009

Made 11 April 2009
*Laid before the National
Assembly for Wales* 15 April 2009
Coming into force 6 May 2009

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Introductory provisions

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Cyfeiriadau at offerynnau Cymunedol
4. Ystyr "difrod amgylcheddol"
5. Difrod amgylcheddol y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo
6. Yr ardaloedd lle mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys
7. Deddfwriaeth arall
8. Esemptiadau
9. Esemptiad rhag difrod i ddŵr
10. Yr awdurdodau gorfodi o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007
11. Yr awdurdodau gorfodi mewn achosion eraill
12. Gorfodi

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. References to Community instruments
4. Meaning of "environmental damage"
5. Environmental damage to which these Regulations apply
6. Areas of application
7. Other legislation
8. Exemptions
9. Exemption from damage to water
10. Enforcing authorities under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007
11. Enforcing authorities in other cases
12. Enforcement

RHAN 2

Atal difrod amgylcheddol

13. Atal difrod amgylcheddol
14. Atal difrod amgylcheddol pellach
15. Camau gan yr awdurdod gorfodi
16. Dilyn cyfarwyddiadau gan awdurdod cyhoeddus

RHAN 3

Adfer

17. Asesu difrod
18. Penderfynu atebolrwydd i adfer
19. Apelau yn erbyn atebolrwydd i adfer
20. Hysbysiadau adfer
21. Apelio yn erbyn yr hysbysiad adfer
22. Darpariaethau pellach am hysbysiadau adfer
23. Camau gan yr awdurdod gorfodi

RHAN 4

Gweinyddu a gorfodi

24. Costau pan fo'r awdurdod gorfodi yn gweithredu'n lle'r gweithredwr
25. Costau sy'n ymwneud â gweinyddu
26. Achosion cyfreithiol am gostau gan awdurdod gorfodi
27. Costau y gellir eu hadennill oddi wrth berchennog i fod yn arwystl ar fangre
28. Adennill costau oddi wrth bersonau eraill
29. Ceisiadau am gamau gan bartïon sydd â buddiant
30. Rhoi hawliau mynediad etc. ac iawndal amdanynt
31. Pwerau personau awdurdodedig
32. Darparu gwybodaeth i'r awdurdod gorfodi
33. Gorfodi
34. Cosbau

PART 2

Preventing environmental damage

13. Preventing environmental damage
14. Preventing further environmental damage
15. Action by the enforcing authority
16. Following instructions from a public authority

PART 3

Remediation

17. Assessment of damage
18. Determining liability to remediate
19. Appeals against liability to remediate
20. Remediation notices
21. Appeal against the remediation notice
22. Further provisions on remediation notices
23. Action by the enforcing authority

PART 4

Administration and enforcement

24. Costs when the enforcing authority acts instead of the operator
25. Costs concerned with administration
26. Proceedings for costs by an enforcing authority
27. Costs recoverable from owner to be a charge on premises
28. Recovery of costs from other persons
29. Requests for action by interested parties
30. Grant of and compensation for rights of entry etc.
31. Powers of authorised persons
32. Provision of information to the enforcing authority
33. Enforcement
34. Penalties

ATODLEN 1	—	Difrod i rywogaethau a warchodir, cynefinoedd naturiol a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig	SCHEDULE 1	—	Damage to protected species, natural habitats and sites of special scientific interest
ATODLEN 2	—	Gweithgareddau sy'n achosi difrod	SCHEDULE 2	—	Activities causing damage
ATODLEN 3	—	Trwyddedau, etc.	SCHEDULE 3	—	Permits, etc.
ATODLEN 4	—	Adfer	SCHEDULE 4	—	Remediation
RHAN 1	—	Adfer i gywiro difrod i adnoddau naturiol ac eithrio tir	PART 1	—	Remediation of damage to natural resources other than land
RHAN 2	—	Adfer i gywiro difrod i dir	PART 2	—	Remediation of damage to land
ATODLEN 5	—	Apelau	SCHEDULE 5	—	Appeals
RHAN 1	—	Apelau os nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi	PART 1	—	Appeals when the Welsh Ministers are not the enforcing authority
RHAN 2	—	Apelau os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi	PART 2	—	Appeals when the Welsh Ministers are the enforcing authority
ATODLEN 6	—	Iawndal	SCHEDULE 6	—	Compensation

Mae Gweinidogion Cymru, gan eu bod wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

The Welsh Ministers being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) make these Regulations under the powers conferred by that section as read with paragraph 1A of Schedule 2 to that Act.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi, ac

The Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972

(1) Mae'r dynodiadau perthnasol wedi'u rhoi gan O.S. 2002/248 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/3329 (mesurau sy'n ymwneud â chadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a ffloera gwylt); O.S. 2003/2901, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329 (mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr a mesurau sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio gollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffiniau); O.S. 2005/850 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329 (mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli pecynnu a gwastraff pecynnu a mesurau sy'n ymwneud ag atal a chyfyngu ar effeithiau damweiniau sy'n cynnwys sylweddau peryglus i'r graddau y maent yn ymwneud â pholisïau a chaniatadau cynllunio defnydd tir); ac O.S. 2007/193 (mesurau sy'n ymwneud ag atal a chywiro halogiad tir).

(2) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(1) The relevant designations are conferred by S.I. 2002/248, as amended by S.I. 2006/3329 (measures relating to the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora); S.I. 2003/2901, as amended by S.I. 2006/3329 (measures relating to water resources and measures relating to the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and transboundary movements of genetically modified organisms); S.I. 2005/850, as amended by S.I. 2006/3329 (measures relating to the prevention, reduction and elimination of pollution caused by waste and the management of packaging and packaging waste and measures relating to the prevention and limitation of the effects of accidents involving dangerous substances in so far as they relate to land-use planning policies and consents); and S.I. 2007/193 (measures relating to the prevention and remedying of land contamination).

(2) 1972 c.68. Paragraph 1A was inserted into Schedule 2 by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r offerynnau Cymunedol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

RHAN 1

Darpariaethau rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Mai 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a'r ardaloedd a bennir yn rheoliad 6.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adnoddyn naturiol" ("*natural resource*") yw—

- (a) rhywogaethau a warchodir;
- (b) cynefinoedd naturiol;
- (c) rhywogaethau neu gynefinoedd ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yr hysbyswyd o'r safle o dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1);
- (ch) dŵr; a
- (d) tir;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" o dan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2);

ystyr "cynefin naturiol" ("*natural habitat*") yw—

- (a) cynefinoedd rhywogaethau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar warchod adar gwyllt, neu Atodiad I iddi(3) neu a restrir yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(4);

(1) 1981 p.69. Cafodd Rhan II o'r Ddeddf (sy'n cynnwys adran 28) ei mewnosod gan Atodlen 9 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a'i diwygio wedi hynny gan Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16).

(2) 2006 p.32.

(3) OJ Rhif L 103, 25.4.1979, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/102/EC, OJ Rhif L 323, 3.12.2008, t. 31).

(4) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t. 7, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t. 368).

and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the Community instruments referred to in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

PART 1

Introductory provisions

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Environmental Damage (Prevention and Remediation) (Wales) Regulations 2009. They come into force on 6 May 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and the areas specified in regulation 6.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"activity" ("*gweithgaredd*") means any economic activity, whether public or private and whether or not carried out for profit;

"groundwater" ("*dŵr daear*") means all water that is below the surface of the ground in the saturation zone and in direct contact with the ground or subsoil;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a county council or a county borough council;

"natural habitat" ("*cynefin naturiol*") means—

- (a) the habitats of species mentioned in Article 4(2) of, or Annex I to, Council Directive 79/409/EEC on the conservation of wild birds(1) or listed in Annex II to Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora(2);
- (b) the natural habitats listed in Annex I to Council Directive 92/43/EEC; and
- (c) the breeding sites or resting places of the species listed in Annex IV to Council Directive 92/43/EEC;

(1) OJ No L 103, 25.4.1979, p. 1 as last amended by Council Directive 2008/102/EC, OJ No L 323, 3.12.2008, p. 31).

(2) OJ No L 206, 22.7.1992, p. 7 as last amended by Council Directive 2006/105/EC (OJ No L 363, 20.12.2006, p. 368).

- (b) y cynefinoedd naturiol a restrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC; ac
- (c) safleoedd bridio neu orffwysfannau'r rhywogaethau a restrir yn Atodiad IV i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC;

ystyr "dŵr daear" ("*groundwater*") yw'r holl ddŵr sydd o dan wyneb y ddaear yn y parth dirlawnder ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear neu'r isbridd;

ystyr "gwasanaethau" ("*services*") yw'r swyddogaethau a gyflawnir gan adnoddyn naturiol er budd adnoddyn naturiol arall neu'r cyhoedd;

ystyr "gweithgaredd" ("*activity*") yw unrhyw weithgaredd economaidd, p'un ai'n gyhoeddus neu'n breifat a ph'un a yw'n cael ei gyflawni er elw ai peidio;

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") yw person sy'n gweithredu neu'n rheoli gweithgaredd, deiliad trwydded neu awdurdodiad sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwnnw neu'r person sy'n cofrestru gweithgaredd o'r fath neu'n hysbysu ohono;

ystyr "rhywogaethau a warchodir" ("*protected species*") yw'r rhywogaethau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC neu a restrir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno neu Atodiadau II a IV i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC.

(2) Onid ydynt wedi'u diffinio fel arall yn y Rheoliadau hyn, mae i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yng Nghyfarwyddeb 2004/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar atebolrwydd amgylcheddol parthed atal a chywiro difrod amgylcheddol⁽¹⁾ yr un ystyr â'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

(3) Mewn perthynas â gollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol a'u rhoi ar y farchnad, mae "gweithredwr" ("*operator*") a "gweithredwr cyfrifol" ("*responsible operator*") yn cynnwys—

"natural resource" ("*adnoddyn naturiol*") means—

- (a) protected species;
- (b) natural habitats;
- (c) species or habitats on a site of special scientific interest for which the site has been notified under section 28 of the Wildlife and Countryside Act 1981⁽¹⁾;
- (d) water; and
- (e) land;

"operator" ("*gweithredwr*") means a person who operates or controls an activity, the holder of a permit or authorisation relating to that activity or the person registering or notifying such an activity;

"protected species" ("*rhywogaethau a warchodir*") means the species mentioned in Article 4(2) of Council Directive 79/409/EEC or listed in Annex I to that Directive or Annexes II and IV to Council Directive 92/43/EEC;

"services" ("*gwasanaethau*") means the functions performed by a natural resource for the benefit of another natural resource or the public;

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given under section 158 of the Government of Wales Act 2006⁽²⁾.

(2) Unless otherwise defined in these Regulations, expressions used in Directive 2004/35/EC of the European Parliament and of the Council on environmental liability with regard to the prevention and remedying of environmental damage⁽³⁾ have the same meaning in these Regulations.

(3) In relation to the deliberate release and placing on the market of genetically modified organisms, "operator" ("*gweithredwr*") and "responsible operator" ("*gweithredwr cyfrifol*") includes—

(1) OJ Rhif L 143, 30.4.2004, t. 56 fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2006/21/EC (OJ Rhif L 102, 11.4.2006, t. 15).

(1) 1981 c.69. Part II of the Act (which includes section 28) was inserted by Schedule 9 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37) and subsequently amended by Schedule 11 to the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16).

(2) 2006 c.32.

(3) OJ No L 143, 30.4.2004, p. 56 as amended by Directive 2006/21/EC (OJ No L 102, 11.4.2006, p. 15).

- (a) deiliad cydsyniad perthnasol a ddyroddwyd o dan Gyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ollwng yn fwriadol i'r amgylchedd organeddau a addaswyd yn enetig(1);
- (b) deiliad cydsyniad perthnasol ar gyfer gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 111(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(2); neu
- (c) deiliad awdurdodiad perthnasol a ddyroddwyd o dan Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig(3).

- (a) the holder of a relevant consent issued under Directive 2001/18/EC of the European Parliament and of the Council on the deliberate release into the environment of genetically modified organisms(1);
- (b) the holder of a relevant consent for the deliberate release of genetically modified organisms granted by the Welsh Ministers under section 111(1) of the Environmental Protection Act 1990(2); or
- (c) the holder of a relevant authorisation issued under Regulation (EC) No 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed(3).

Cyfeiriadau at offerynnau Cymunedol

3. Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at offerynnau Cymunedol yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

Ystyr "difrod amgylcheddol"

4.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag atal difrod amgylcheddol ac adfer i gywiro'r difrod hwnnw; ac mae "difrod amgylcheddol" ("*environmental damage*") yn ddifrod i'r canlynol—

- (a) rhywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol, neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig,
- (b) dŵr wyneb neu ddŵr daear, neu
- (c) tir,

fel a bennir yn y rheoliad hwn.

(2) Mae difrod amgylcheddol i rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn golygu difrod o fath a bennir yn Atodlen 1.

(3) Mae difrod amgylcheddol i ddŵr wyneb yn golygu difrod i grynofa dŵr wyneb sydd wedi'i dosbarthu fel y cyfryw yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer camau Cymunedol ym maes polisi dŵr(4) fel bod—

References to Community instruments

3. Reference in these Regulations to Community instruments are references to those instruments as amended from time to time.

Meaning of "environmental damage"

4.—(1) These Regulations apply in relation to the prevention and remediation of environmental damage; and "environmental damage" ("*difrod amgylcheddol*") is damage to—

- (a) protected species or natural habitats, or a site of special scientific interest,
- (b) surface water or groundwater, or
- (c) land,

as specified in this regulation.

(2) Environmental damage to protected species or natural habitats or a site of special scientific interest means damage of a kind specified in Schedule 1.

(3) Environmental damage to surface water means damage to a surface water body classified as such pursuant to Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council establishing a framework for Community action in the field of water policy(4) such that—

(1) OJ Rhif L 106, 17.4.2001, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/27/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 81, 20.3.2008, t. 45).

(2) 1990 p.43.

(3) OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 298/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 97, 9.4.2008, t. 64).

(4) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/105/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 348, 24.12.2008, t. 84).

(1) OJ No L 106, 17.4.2001, p. 1 as last amended by Directive 2008/27/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 81, 20.3.2008, p. 45).

(2) 1990 c.43.

(3) OJ No L 268, 18.10.2003, p. 1 as last amended by Regulation (EC) No 298/2008 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 97, 9.4.2008, p. 64).

(4) OJ No L 327, 22.12.2000, p. 1 as last amended by Directive 2008/105/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 348, 24.12.2008, p. 84).

- (a) elfen ansawdd biolegol a restrir yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb honno,
- (b) lefel cemegyn a restrir yn y ddeddfwriaeth yn Atodiad IX neu gemegyn sydd wedi'i restru yn Atodiad X i'r Gyfarwyddeb honno, neu
- (c) elfen ansawdd ffisio-gemegol a restrir yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb honno,

yn newid digon i leihau statws y grynofa ddŵr yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (p'un a yw'r grynofa ddŵr wedi'i hailddosbarthu mewn gwirionedd fel un y mae ei statws yn is ai peidio).

(4) Mae difrod amgylcheddol i ddŵr daear yn golygu unrhyw ddifrod i grynofa dŵr daear fel bod ei ddargludedd, lefel neu grynodiad y llygryddion yn newid digon i leihau ei statws yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (ac ar gyfer llygryddion Cyfarwyddeb 2006/118/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddiogelu dŵr daear rhag llygredd a dirywiad⁽¹⁾) (p'un a yw'r grynofa dŵr daear wedi'i hailddosbarthu mewn gwirionedd fel un y mae ei statws yn is ai peidio).

(5) Mae difrod amgylcheddol i dir yn golygu halogi tir â sylweddau, paratoadau, organeddau neu ficro-organeddau sy'n arwain at risg sylweddol o effeithiau andwyol ar iechyd dynol.

Difrod amgylcheddol y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo

5.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â difrod amgylcheddol os yw wedi'i achosi gan weithgaredd yn Atodlen 2.

(2) Yn achos difrod amgylcheddol i rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae'r Rheoliadau yn gymwys hefyd o ran difrod amgylcheddol a achosir gan unrhyw weithgaredd arall os oedd y gweithredwr—

- (a) yn bwriadu achosi difrod amgylcheddol; neu
- (b) yn esgeulus ynghylch a fyddai difrod amgylcheddol yn cael ei achosi.

Yr ardaloedd lle'r mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys

6.—(1) Rhaid i'r difrod fod mewn ardal a bennir yn y tabl canlynol—

- (a) a biological quality element listed in Annex V to that Directive,
- (b) the level of a chemical listed in the legislation in Annex IX or a chemical listed in Annex X to that Directive, or
- (c) a physicochemical quality element listed in Annex V to that Directive,

changes sufficiently to lower the status of the water body in accordance with Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council (whether or not the water body is in fact reclassified as being of lower status).

(4) Environmental damage to groundwater means any damage to a body of groundwater such that its conductivity, level or concentration of pollutants changes sufficiently to lower its status pursuant to Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council (and for pollutants Directive 2006/118/EC of the European Parliament and of the Council on the protection of groundwater against pollution and deterioration⁽¹⁾) (whether or not the body of groundwater is in fact reclassified as being of lower status).

(5) Environmental damage to land means contamination of land by substances, preparations, organisms or micro-organisms that results in a significant risk of adverse effects on human health.

Environmental damage to which these Regulations apply

5.—(1) These Regulations apply in relation to environmental damage if it is caused by an activity in Schedule 2.

(2) In the case of environmental damage to protected species or natural habitats or a site of special scientific interest the Regulations also apply in relation to environmental damage caused by any other activity if the operator—

- (a) intended to cause environmental damage; or
- (b) was negligent as to whether environmental damage would be caused.

Areas of application

6.—(1) The damage must be in an area specified in the following table—

⁽¹⁾ OJ Rhif L 372, 27.12.2006, t. 19.

⁽¹⁾ OJ No L 372, 27.12.2006, p. 19.

Y math o ddifrod	Yr ardal lle mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys
Difrod i ddŵr	Cymru a'r holl ddyfroedd hyd at un filltir fôr tua'r môr o'r gwaelodlin yng Nghymru
Difrod mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig	Cymru
Difrod i rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol	Cymru
Difrod i dir	Cymru

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gwaelodlin" ("*the baseline*") yw'r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol ohonynt at ddibenion Deddf Moroedd Tiriogaethol 1987(1)

Deddfwriaeth arall

7.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn lleihau effaith unrhyw ddeddfiad arall ynghylch difrod i'r amgylchedd.

(2) Nid ydynt yn lleihau hawl gweithredwr i gyfyngu atebolrwydd yn unol â Chonfensiwn ar Gyfyngu Atebolrwydd am Hawliadau Morol 1976(2).

Esemptiadau

8.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran—

- (a) difrod a ddigwyddodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;
- (b) difrod sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw, neu y mae bygythiad y bydd yn digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw, ond bod y difrod hwnnw wedi'i achosi gan ddigwyddiad, achlysur neu allyriad a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw; neu
- (c) difrod sy'n cael ei achosi gan ddigwyddiad, achlysur neu allyriad sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw os yw'n deillio o weithgaredd a ddigwyddodd ac a ddaeth i ben cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Nid ydynt yn gymwys o ran difrod amgylcheddol sy'n cael ei achosi gan—

Type of damage	Area in which these Regulations apply
Damage to water	Wales and all water up to one nautical mile seaward from the baseline in Wales
Damage in a site of special scientific interest	Wales
Damage to protected species or natural habitats	Wales
Damage to land	Wales

(2) In this regulation, "the baseline" means the baselines from which the breadth of the territorial sea is measured for the purposes of the Territorial Sea Act 1987(1).

Other legislation

7.—(1) These Regulations are without prejudice to any other enactment concerning damage to the environment.

(2) They are without prejudice to the right of an operator to limit liability in accordance with the Convention on Limitation of Liability for Maritime Claims 1976(2).

Exemptions

8.—(1) These Regulations do not apply in relation to—

- (a) damage that took place before the coming into force of these Regulations;
- (b) damage that takes place after that date, or is threatened after that date, but is caused by an incident, event or emission that took place before that date; or
- (c) damage caused by an incident, event or emission that takes place after that date if it derives from an activity that took place and finished before that date.

(2) They do not apply in relation to environmental damage caused by—

(1) 1987 p. 49.

(2) Mae'r Confensiwn wedi'i osod yn Atodlen 7 i Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21).

(1) 1987 c. 49.

(2) The Convention is set out in Schedule 7 to the Merchant Shipping Act 1995 (c. 21).

- (a) gweithred frawychiaeth;
- (b) ffenomenon naturiol eithriadol, ar yr amod bod gweithredwr y gweithgaredd o dan sylw wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i ddiogelu rhag bod difrod yn cael ei achosi gan achlysur o'r fath;
- (c) gweithgareddau a'u hunig bwrpas yw diogelu rhag trychinebau naturiol;
- (ch) digwyddiad y mae atebolrwydd neu iawndal amdano yn dod o fewn cwmpas—
 - (i) Confensiwn Rhyngwladol 27 Tachwedd 1992 ar Atebolrwydd Sifil am Ddifrod drwy Lygredd Olew;
 - (ii) Confensiwn Rhyngwladol 27 Tachwedd 1992 ar Sefydlu Cronfa Ryngwladol ar gyfer Iawndal am Ddifrod drwy Lygredd Olew(1); neu
 - (iii) Confensiwn Rhyngwladol ar Atebolrwydd Sifil am Ddifrod drwy Lygredd Olew Byncer 2001(2);
- (d) gweithgareddau a'u prif bwrpas yw gwasanaethu dibenion amddiffyn gwladol neu ddiogelwch rhyngwladol;
- (dd) ymbelydredd o weithgaredd y mae'r Cytuniad a sefydlodd Gymuned Ynni Atomig Ewrop yn ei gwmpasu neu ymbelydredd a achoswyd gan ddiwyddiad neu weithgaredd y mae atebolrwydd neu iawndal amdano yn dod o fewn cwmpas Confensiwn Paris dyddiedig 29 Gorffennaf 1960 ar Atebolrwydd Trydydd Partïon ym Maes Ynni Niwclear a Chonfensiwn Atodol Brwsel dyddiedig 31 Ionawr 1963; neu
- (e) difrod a achoswyd wrth ymgymryd â physgota môr masnachol os cydymffurfiwyd â phob deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pysgota hwnnw.

(3) Dim ond os yw'n bosibl cadarnhau cysylltiad achosol rhwng y difrod a gweithgareddau penodol y maent yn gymwys i ddiffrod amgylcheddol a achoswyd gan lygredd gwasgarog ei natur.

Esemptiad rhag difrod i ddŵr

- 9.—(1) Nid yw difrod i ddŵr yn cynnwys—
- (a) difrod a achosir gan addasiadau newydd i nodweddion ffisegol crynafa dŵr wyneb,
 - (b) newid i lefel crynafa dŵr daear yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, neu

(1) Rhoddwyd y ddau gonfensiwn hyn ar waith yn Neddf Llongau Masnachol 1995 (p.21).

(2) Fe'i rhoddwyd ar waith yn Neddf Llongau Masnachol 1995 drwy ddiwygiadau a wnaed i'r Ddeddf honno gan O.S. 2006/1244.

- (a) an act of terrorism;
- (b) an exceptional natural phenomenon, provided the operator of the activity concerned took all reasonable precautions to protect against damage being caused by such an event;
- (c) activities the sole purpose of which is to protect from natural disasters;
- (d) an incident in respect of which liability or compensation falls within the scope of—
 - (i) the International Convention of 27 November 1992 on Civil Liability for Oil Pollution Damage;
 - (ii) the International Convention of 27 November 1992 on the Establishment of an International Fund for Compensation for Oil Pollution Damage(1); or
 - (iii) the International Convention on Civil Liability for Bunker Oil Pollution Damage 2001(2);
- (e) activities the main purpose of which is to serve national defence or international security;
- (f) radioactivity from an activity covered by the Treaty establishing the European Atomic Energy Community or caused by an incident or activity in respect of which liability or compensation falls within the scope of the Paris Convention of 29 July 1960 on Third Party Liability in the Field of Nuclear Energy and the Brussels Supplementary Convention of 31 January 1963; or
- (g) damage caused in the course of commercial sea fishing if all legislation relating to that fishing was complied with.

(3) They only apply to environmental damage caused by pollution of a diffuse character if it is possible to establish a causal link between the damage and specific activities.

Exemption from damage to water

- 9.—(1) Damage to water does not include—
- (a) damage caused by new modifications to the physical characteristics of a surface water body,
 - (b) an alteration to the level of a body of groundwater pursuant to Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council, or

(1) Both these conventions were implemented in the Merchant Shipping Act 1995 (c. 21).

(2) Implemented in the Merchant Shipping Act 1995 by amendments made to that Act by S.I. 2006/1244.

- (c) dirywio o statws uchel i statws da crynafa dŵr wyneb sy'n ganlyniad i weithgareddau newydd o ran datblygiadau dynol cynaliadwy yn unol â'r Gyfarwyddeb honno,

os caiff pob amod ym mharagraff (2) ei gyflawni.

(2) Yr amodau yw—

- (a) bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i leddfu ar yr effaith andwyol ar statws y grynafa ddŵr;
- (b) bod y rhesymau dros yr addasiadau neu'r newidiadau wedi'u gosod a'u hesbonio yn benodol yn y cynllun rheoli basn afon sy'n ofynnol o dan Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a bod yr amcanion yn cael eu hadolygu bob chwe mlynedd;
- (c) bod y rhesymau dros yr addasiadau neu'r newidiadau o ddiddordeb cyhoeddus hollbwysig, neu fod manteision yr addasiadau newydd neu'r newidiadau newydd i iechyd dynol, i waith cadw pobl yn ddiogel neu i ddatblygu cynaliadwy yn drech na chanlyniad y difrod; ac
- (ch) nad oes modd i'r amcanion buddiol, y mae'r addasiadau neu'r newidiadau hynny i'r grynafa ddŵr yn gyfrwng i'w cyflawni, gael eu sicrhau drwy ddulliau eraill oherwydd dichonolrwydd technegol neu gostau anghymesur.

Yr awdurdodau gorfodi o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007

10.—(1) Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gorfodi yn unol â'r rheoliad hwn os bydd y difrod wedi'i achosi gan weithfa, gweithred wastraff neu offer symudol y mae trwydded neu gofrestrriad yn ofynnol ar ei chyfer neu ar eu cyfer o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007(1).

(2) Os Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am roi'r drwydded, caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi gan Asiantaeth yr Amgylchedd ym mhob achos.

(3) Os yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am roi'r drwydded—

- (a) gorfodir Rhan 2 gan yr awdurdod lleol;
- (b) gorfodir Rhan 3 gan—
 - (i) yr awdurdod lleol os yw'r difrod yn ddifrod i dir;
 - (ii) Asiantaeth yr Amgylchedd os yw'r difrod yn ddifrod i ddŵr;
 - (iii) Cyngor Cefn Gwlad Cymru os yw'r difrod yn ddifrod i gynefinoedd naturiol neu rywogaethau a warchodir neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

- (c) deterioration from high status to good status of a body of surface water resulting from new sustainable human development activities pursuant to that Directive,

if all the conditions in paragraph (2) are fulfilled.

(2) The conditions are—

- (a) all practicable steps are taken to mitigate the adverse impact on the status of the body of water;
- (b) the reasons for those modifications or alterations are specifically set out and explained in the river basin management plan required under Article 13 of Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council and the objectives are reviewed every six years;
- (c) the reasons for those modifications or alterations are of overriding public interest, or the result of the damage is outweighed by the benefits of the new modifications or alterations to human health, to the maintenance of human safety or to sustainable development; and
- (d) the beneficial objectives served by those modifications or alterations of the water body cannot for reasons of technical feasibility or disproportionate cost be achieved by other means.

Enforcing authorities under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007

10.—(1) These Regulations are enforced in accordance with this regulation if the damage is caused by an installation, waste operation or mobile plant that requires a permit or registration under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007(1).

(2) If the Environment Agency is responsible for granting the permit, they are enforced by the Environment Agency in all cases.

(3) If the local authority is responsible for granting the permit—

- (a) Part 2 is enforced by the local authority;
- (b) Part 3 is enforced by—
 - (i) the local authority if the damage is to land;
 - (ii) the Environment Agency if the damage is to water;
 - (iii) Countryside Council for Wales if the damage is to natural habitats or protected species or a site of special scientific interest.

(1) O.S. 2007/3538.

(1) S.I. 2007/3538.

Yr awdurdodau gorfodi mewn achosion eraill

11.—(1) Os yw'r difrod wedi'i achosi gan weithgaredd nad yw'n ofynnol cael trwydded neu gofrestrriad ar ei gyfer o dan Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007, gorfodir y Rheoliadau hyn yn unol â'r tabl canlynol.

<i>Y math o ddifrod amgylcheddol</i>	<i>Man y difrod</i>	<i>Yr awdurdod gorfodi</i>
Difrod i ddŵr—		Asiantaeth yr Amgylchedd
Difrod i r ywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig—	tir	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
	dŵr ond nid yn y môr ⁽¹⁾ y môr	Asiantaeth yr Amgylchedd — os yw'r difrod oherwydd gweithgaredd a awdurdodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd;
Niwed i dir—		— fel arall, Gweinidogion Cymru Yr awdurdod lleol

(1) Mae "môr" yn cynnwys—

- (a) unrhyw fan sydd dan y dŵr adeg llanw uchaf cymedrig y gorllanw; a
- (b) pob un o'r canlynol, i'r graddau y mae'r llanw'n llifo adeg llanw uchaf cymedrig y gorllanw—
 - (i) pob aber neu forgainc; a
 - (ii) dyfroedd unrhyw sianel, cilfach, bae neu afon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol eu natur i awdurdod gorfodi ynghylch cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

Enforcing authorities in other cases

11.—(1) If the damage is caused by an activity that does not require a permit or registration under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007 these Regulations are enforced in accordance with the following table.

<i>Type of environmental damage</i>	<i>Area of damage</i>	<i>Enforcing authority</i>
Damage to water—		Environment Agency
Damage to protected species or natural habitats or a site of special scientific interest—	land	Countryside Council for Wales
	water but not in the sea ⁽¹⁾ the sea	Environment Agency — if the damage is due to an activity authorised by the Environment Agency, the Environment Agency;
Damage to land—		— otherwise the Welsh Ministers Local authority

(1) "Sea" includes—

- (a) any area submerged at mean high water spring tide; and
- (b) each of the following, so far as the tide flows at mean high water spring tide—
 - (i) every estuary or arm of the sea; and
 - (ii) the waters of any channel, creek, bay or river.

(2) The Welsh Ministers may give directions to an enforcing authority of a general or specific character with respect to the carrying out of its functions under these Regulations.

(3) Rhaid i awdurdod gorfodi gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan y Rheoliadau hyn.

Gorfodi

12.—(1) Os oes mwy nag un math o ddifrod, fel bod mwy nag un awdurdod gorfodi, gorfodir y Rheoliadau hyn gan unrhyw un neu gan bob un o'r awdurdodau gorfodi penodedig.

(2) Caiff awdurdod gorfodi ymrwymo i drefniant gydag unrhyw awdurdod gorfodi arall i weithredu ar ei ran.

RHAN 2

Atal difrod amgylcheddol

Atal difrod amgylcheddol

13.—(1) Rhaid i weithredwr gweithgaredd sy'n peri bod bygythiad agos o ddifrod amgylcheddol, neu fygythiad agos o ddifrod y mae seiliau rhesymol dros gredu y bydd yn datblygu i fod yn ddifrod amgylcheddol, wneud y canlynol ar unwaith—

- (a) cymryd pob cam ymarferol i atal y difrod; a
- (b) (onid yw'r bygythiad wedi'i ddileu) hysbysu'r awdurdod gorfodi y mae'n ymddangos mai hwnnw yw'r un priodol o'r holl fanylion perthnasol.

(2) Caiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad i'r gweithredwr hwnnw sydd—

- (a) yn disgrifio'r bygythiad;
- (b) yn pennu'r mesurau sy'n ofynnol i atal y difrod; ac
- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr gymryd y mesurau hynny, neu'r mesurau sydd o leiaf yn gyfwerth â hwy, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Mae methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (2) yn dramgwydd.

Atal difrod amgylcheddol pellach

14.—(1) Rhaid i weithredwr gweithgaredd sydd wedi achosi difrod amgylcheddol, neu sydd wedi achosi difrod pan fo seiliau rhesymol dros gredu bod y difrod yn ddifrod amgylcheddol neu y bydd yn datblygu i fod yn ddifrod o'r fath, wneud y canlynol ar unwaith—

- (a) cymryd pob cam ymarferol i atal difrod pellach; a
- (b) hysbysu'r awdurdod gorfodi, y mae'n ymddangos mai hwnnw yw'r un priodol, o'r holl fanylion perthnasol.

(3) An enforcing authority must comply with a direction given to it under these Regulations.

Enforcement

12.—(1) If there is more than one type of damage, so that there is more than one enforcing authority, these Regulations are enforced by any or all of the specified enforcing authorities.

(2) An enforcing authority may enter into an arrangement with any other enforcing authority to act on its behalf.

PART 2

Preventing environmental damage

Preventing environmental damage

13.—(1) An operator of an activity that causes an imminent threat of environmental damage, or an imminent threat of damage in relation to which there are reasonable grounds to believe will become environmental damage, must immediately—

- (a) take all practicable steps to prevent the damage; and
- (b) (unless the threat has been eliminated) notify all relevant details to the enforcing authority appearing to be the appropriate one.

(2) The enforcing authority may serve a notice on that operator that—

- (a) describes the threat;
- (b) specifies the measures required to prevent the damage; and
- (c) requires the operator to take those measures, or measures at least equivalent to them, within the period specified in the notice.

(3) Failure to comply with paragraph (1) or a notice served under paragraph (2) is an offence.

Preventing further environmental damage

14.—(1) An operator of an activity that has caused environmental damage, or has caused damage where there are reasonable grounds to believe that the damage is or will become environmental damage, must immediately—

- (a) take all practicable steps to prevent further damage; and
- (b) notify all relevant details to the enforcing authority appearing to be the appropriate one.

(2) Caiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad i'r gweithredwr hwnnw sydd—

- (a) yn disgrifio'r difrod;
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol am unrhyw ddifrod sydd wedi digwydd;
- (c) yn pennu'r mesurau sy'n ofynnol i atal difrod pellach; ac
- (ch) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr gymryd y mesurau hynny, neu fesurau sydd o leiaf yn gyfwerth â hwy, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Mae methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (2) yn dramgwydd.

Camau gan yr awdurdod gorfodi

15. Caniateir i unrhyw ddyletswydd yn y Rhan hon sydd ar weithredwr gweithgaredd gael ei chyflawni gan yr awdurdod gorfodi yn lle'r gweithredwr—

- (a) mewn argyfwng;
- (b) os nad oes modd darganfod pwy yw'r gweithredwr; neu
- (c) os yw'r gweithredwr yn methu â chydymffurfio â hysbysiad.

Dilyn cyfarwyddiadau gan awdurdod cyhoeddus

16. Pan fo gweithredwr yn gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau awdurdod cyhoeddus, ac o ganlyniad yn achosi neu'n bygwth achosi difrod amgylcheddol, ac felly bod camau yn cael eu cymryd o dan reoliadau 13, 14 neu 15 yna, oni bai bod y cyfarwyddiadau yn ymwneud ag allyriad neu ddigwyddiad a achoswyd gan weithgareddau'r gweithredwr ei hun, caiff y gweithredwr adennill costau gweithredoedd o dan y rheoliadau hynny oddi wrth yr awdurdod cyhoeddus hwnnw.

RHAN 3

Adfer

Asesu difrod

17. Pan fo difrod wedi'i achosi, a bod seiliau rhesymol dros gredu ei fod, neu y gall fod, yn ddifrod amgylcheddol, rhaid i'r awdurdod gorfodi gadarnhau a yw'n ddifrod amgylcheddol ai peidio.

Penderfynu atebolrwydd i adfer

18.—(1) Os bydd yr awdurdod gorfodi'n penderfynu bod y difrod yn ddifrod amgylcheddol, rhaid iddo hysbysu gweithredwr neu weithredwyr unrhyw

(2) The enforcing authority may serve a notice on that operator that—

- (a) describes the damage;
- (b) requires the operator to provide additional information on any damage that has occurred;
- (c) specifies the measures required to prevent further damage; and
- (d) requires the operator to take those measures, or measures at least equivalent to them, within the period specified in the notice.

(3) Failure to comply with paragraph (1) or a notice served under paragraph (2) is an offence.

Action by the enforcing authority

15. Any duty in this Part on the operator of an activity may be carried out by the enforcing authority instead of the operator—

- (a) in an emergency;
- (b) if the operator cannot be ascertained; or
- (c) if the operator fails to comply with a notice.

Following instructions from a public authority

16. When an operator acts in accordance with the instructions of a public authority, and as a result causes or threatens to cause environmental damage, and accordingly action is taken under regulations 13, 14 or 15 then, unless the instructions related to an emission or incident caused by the operator's own activities, the operator may recover the costs of actions under those regulations from that public authority.

PART 3

Remediation

Assessment of damage

17. Where damage has been caused, and there are reasonable grounds for believing that it is, or may be, environmental damage, the enforcing authority must establish whether or not it is environmental damage.

Determining liability to remediate

18.—(1) If the enforcing authority decides that the damage is environmental damage it must notify the operator or operators of any activity or activities that

weithgaredd neu weithgareddau a achosodd y difrod (gweithredwr y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y gweithredwr cyfrifol" (*"the responsible operator"*))—

- (a) bod y difrod yn ddifrod amgylcheddol;
- (b) bod gweithgaredd y gweithredwr cyfrifol yn un o achosion y difrod amgylcheddol;
- (c) bod rhaid i'r gweithredwr cyfrifol gyflwyno cynigion, o fewn amser a bennir gan yr awdurdod gorfodi, ar gyfer mesurau a fyddai'n sicrhau adferiad i gywiro'r difrod amgylcheddol yn unol ag Atodlen 4; ac
- (ch) bod gan y gweithredwr cyfrifol hawl i apelio.

(2) Caiff yr awdurdod gorfodi dynnu'r hysbysiad yn ôl neu ei amrywio os yw wedi'i fodloni na ddylai'r hysbysiad fod wedi'i gyflwyno neu fod apêl yn erbyn yr hysbysiad yn debyg o lwyddo.

Apelau yn erbyn atebolrwydd i adfer

19.—(1) Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan reoliad 18 hysbysu Gweinidogion Cymru bod y person hwnnw'n bwriadu apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 28 niwrnod i gyflwyno hysbysiad o dan reoliad 18 oni chaiff y terfyn amser ei estyn gan Weinidogion Cymru.

(3) Y seiliau dros apelio yw—

- (a) nad oedd gweithgaredd y gweithredwr yn un o achosion y difrod amgylcheddol;
- (b) bod yr awdurdod gorfodi wedi gweithredu'n afresymol drwy benderfynu bod y difrod yn ddifrod amgylcheddol;
- (c) bod y difrod amgylcheddol wedi bod yn ganlyniad i gydymffurfio â chyfarwyddyd gan awdurdod cyhoeddus (ac eithrio cyfarwyddyd sy'n ymwneud ag allyriad neu ddigwyddiad a achoswyd gan weithgareddau'r gweithredwr ei hun);
- (ch) nad oedd y gweithredwr cyfrifol ar fai nac yn esgeulus a bod y difrod amgylcheddol wedi'i achosi gan allyriad neu ddigwyddiad a awdurdodwyd yn bendant gan drwydded a restrir yn Atodlen 3 ac a oedd yn cydymffurfio'n llawn ag amodau'r drwydded honno;
- (d) nad oedd y gweithredwr cyfrifol ar fai nac yn esgeulus a bod y difrod amgylcheddol wedi'i achosi gan allyriad neu weithgaredd neu unrhyw ddull o ddefnyddio cynnyrch yn ystod gweithgaredd y mae'r gweithredwr yn dangos nad oedd yn cael ei ystyried yn debyg o achosi difrod amgylcheddol yn ôl cyflwr gwybodaeth wyddonol a thechnegol pan gafodd yr allyriad ei ollwng neu pan ddigwyddodd y gweithgaredd;

caused the damage (referred to in these Regulations as "the responsible operator" (*"y gweithredwr cyfrifol"*)) that—

- (a) the damage is environmental damage;
- (b) the responsible operator's activity was a cause of the environmental damage;
- (c) the responsible operator must submit proposals, within a time specified by the enforcing authority, for measures that will achieve the remediation of the environmental damage in accordance with Schedule 4; and
- (d) the responsible operator has a right to appeal.

(2) The enforcing authority may withdraw or vary the notification if it is satisfied that the notification should not have been served or that an appeal against the notification is likely to succeed.

Appeals against liability to remediate

19.—(1) A person served with notification under regulation 18 may notify the Welsh Ministers that that person intends to appeal against that notification.

(2) Notice of appeal must be served on the Welsh Ministers within 28 days of service of the notification under regulation 18 unless the time limit is extended by the Welsh Ministers.

(3) The grounds of appeal are—

- (a) the operator's activity was not a cause of the environmental damage;
- (b) the enforcing authority has acted unreasonably in deciding that the damage is environmental damage;
- (c) the environmental damage resulted from compliance with an instruction from a public authority (except an instruction relating to an emission or incident caused by the operator's own activities);
- (d) the responsible operator was not at fault or negligent and the environmental damage was caused by an emission or event expressly authorised by, and fully in accordance with the conditions of a permit listed in Schedule 3;
- (e) the responsible operator was not at fault or negligent and the environmental damage was caused by an emission or activity or any manner of using a product in the course of an activity that the operator demonstrates was not considered likely to cause environmental damage according to the state of scientific and technical knowledge at the time when the emission was released or the activity took place;

(dd) bod y difrod amgylcheddol yn ganlyniad i weithred trydydd parti a'i fod wedi digwydd er gwaethaf y ffaith bod y gweithredwr cyfrifol wedi cymryd pob mesur diogelwch priodol.

(4) Nid yw paragraff 3(d) yn gymwys mewn perthynas â gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig.

(5) Mae Atodlen 5 yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer yr apêl.

(6) Caiff y person sy'n penderfynu'r apêl gadarnhau neu ddi-ddymu'r hysbysiad.

Hysbysiadau adfer

20.—(1) Pan fydd yn cael y cynigion oddi wrth y gweithredwr cyfrifol (neu, os na cheir cynnig o fewn terfyn amser penodedig, unrhyw bryd ar ôl i'r terfyn amser ddirwyn i ben), rhaid i'r awdurdod gorfodi, i'r graddau y mae'n ymarferol, ymgynghori â'r canlynol—

- (a) unrhyw un sydd wedi hysbysu awdurdod gorfodi o dan reoliad 29, a
- (b) unrhyw berson y bydd y mesurau adfer yn cael eu cyflawni ar ei dir,

a chaiff ymgynghori ag unrhyw berson arall y mae'n ymddangos yn angenrheidiol ymgynghori ag ef.

(2) Ar ôl ymgynghori rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno i'r gweithredwr cyfrifol hysbysiad adfer sy'n rhoi manylion—

- (a) y difrod;
- (b) y mesurau sy'n angenrheidiol ar gyfer adfer i gywiro'r difrod, ynghyd â'r rhesymau;
- (c) y cyfnod pryd y mae'n rhaid cymryd y mesurau hynny ynddo;
- (ch) unrhyw fesurau ychwanegol i fonitro neu i ymchwilio y mae'n rhaid i'r gweithredwr cyfrifol eu cyflawni yn ystod adferiad; a
- (d) yr hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad adfer.

(3) Caiff yr awdurdod gorfodi dynnu'r hysbysiad adfer yn ôl neu ei amrywio os yw wedi'i fodloni na ddylai'r hysbysiad adfer fod wedi'i gyflwyno neu y byddai apêl yn erbyn yr hysbysiad adfer yn debyg o lwyddo.

(4) Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad adfer yn dramgwydd.

Apelio yn erbyn yr hysbysiad adfer

21.—(1) Caiff y gweithredwr cyfrifol hysbysu Gweinidogion Cymru fod y person hwnnw'n bwriadu apelio yn erbyn yr hysbysiad adfer ar y sail bod cynnwys yr hysbysiad hwnnw'n afresymol.

(2) Dim ond yn erbyn y rhannau hynny o'r hysbysiad

(f) the environmental damage was the result of an act of a third party and occurred despite the fact that the responsible operator took all appropriate safety measures.

(4) Paragraph 3(e) does not apply in relation to the deliberate release of genetically modified organisms.

(5) Schedule 5 contains procedures for the appeal.

(6) The person deciding the appeal may confirm or quash the notice.

Remediation notices

20.—(1) Once it receives the proposals from the responsible operator (or, if a proposal is not received within the specified time limit, at any time after the time limit has expired), the enforcing authority must, so far as is practicable, consult—

- (a) anyone who has notified an enforcing authority under regulation 29, and
- (b) any person on whose land the remedial measures will be carried out,

and may consult any other person appearing to be necessary.

(2) Following consultation the enforcing authority must serve a remediation notice on the responsible operator that specifies—

- (a) the damage;
- (b) the measures necessary for remediation of the damage, together with the reasons;
- (c) the period within which those measures must be taken;
- (d) any additional monitoring or investigative measures that the responsible operator must carry out during remediation; and
- (e) the right of appeal against the remediation notice.

(3) The enforcing authority may withdraw or vary the remediation notice if it is satisfied that the remediation notice should not have been served or that an appeal against the remediation notice is likely to succeed.

(4) Failure to comply with a remediation notice is an offence.

Appeal against the remediation notice

21.—(1) The responsible operator may notify the Welsh Ministers that that person intends to appeal against the remediation notice on the grounds that its contents are unreasonable.

(2) An appeal may only be brought against those

adfer sy'n wahanol i'r cynigion a wnaed gan y gweithredwr cyfrifol y caniateir i apêl gael ei dwyn.

(3) Rhaid i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 28 niwrnod i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad adfer oni chaiff y terfyn amser gael ei estyn gan Weinidogion Cymru.

(4) Mae Atodlen 5 yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer yr apêl.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r person penodedig gadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r hysbysiad, a rhaid i'r Gweinidogion neu'r person hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad terfynol a'r rhesymau drosto, a chaniateir iddynt neu iddo ychwanegu, os yw'n briodol, gofynion adfer cydadferol pellach y mae'r treigladd amser ers i'r hysbysiad adfer gael ei gyflwyno yn eu gwneud yn angenrheidiol.

(6) Nid oes angen cydymffurfio â hysbysiad adfer tra'n aros i apêl gael ei phenderfynu onid yw'r person sy'n gwrando'r apêl yn cyfarwyddo fel arall.

Darpariaethau pellach am hysbysiadau adfer

22. Caiff awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiadau adfer pellach ar unrhyw bryd tra bo gwaith adfer yn cael ei wneud, neu os na fydd y gwaith adfer wedi'i gyflawni, ar ddiwedd y cyfnod adfer, yn ei gwneud yn ofynnol bod gwaith adfer pellach neu wahanol yn cael ei wneud.

Camau gan yr awdurdod gorfodi

23. Pan fo wedi'i gadarnhau bod y difrod yn ei farn ef yn ddifrod amgylcheddol, caiff yr awdurdod gorfodi wneud unrhyw waith rhesymol—

- (a) ar unrhyw bryd os na ellir darganfod pwy yw'r gweithredwr cyfrifol;
- (b) os bydd gweithredwr cyfrifol yn methu â chydymffurfio â hysbysiad adfer, p'un a oes apêl yn yr arfaeth ai peidio; neu
- (c) os nad yw'n ofynnol i'r gweithredwr cyfrifol adfer o dan y Rheoliadau hyn.

RHAN 4

Gweinyddu a gorfodi

Costau pan fo'r awdurdod gorfodi yn gweithredu'n lle'r gweithredwr

24.—(1) Mae gweithredwr sy'n atebol i wneud gwaith o dan Ran 2 yn atebol am unrhyw gostau rhesymol a dynnir gan yr awdurdod gorfodi wrth gymryd unrhyw gamau rhesymol o dan reoliad 15.

parts of the remediation notice that are different from proposals made by the responsible operator.

(3) Notice of appeal must be served on the Welsh Ministers within 28 days of service of the remediation notice unless the time limit is extended by the Welsh Ministers.

(4) Schedule 5 contains procedures for the appeal.

(5) The Welsh Ministers or the appointed person may confirm, vary or quash the notice, and must give written notification of the final decision and the reasons for it, and may, if appropriate, add further compensatory remediation requirements necessitated by the lapse of time since the remediation notice was served.

(6) A remediation notice need not be complied with pending determination of an appeal unless the person hearing the appeal directs otherwise.

Further provisions on remediation notices

22. An enforcing authority may serve further remediation notices at any time while remediation is being carried out or, if remediation has not been achieved, at the end of the remediation period, requiring further or different remediation.

Action by the enforcing authority

23. Once it has established that in its opinion damage is environmental damage, the enforcing authority may carry out any reasonable works—

- (a) at any time if a responsible operator cannot be identified;
- (b) if a responsible operator fails to comply with a remediation notice, whether or not an appeal is pending; or
- (c) if the responsible operator is not required to remediate under these Regulations.

PART 4

Administration and enforcement

Costs when the enforcing authority acts instead of the operator

24.—(1) An operator liable to carry out works under Part 2 is liable for any reasonable costs incurred by the enforcing authority in taking any reasonable action under regulation 15.

(2) Mae'r gweithredwr cyfrifol yn atebol am gostau rhesymol yr awdurdod gorfodi am unrhyw gamau a gymerwyd o dan reoliad 23 onid oedd y gweithredwr cyfrifol yn atebol am y camau a gymerwyd.

Costau sy'n ymwneud â gweinyddu

25.—(1) Mae gweithredwr sy'n atebol am wneud gwaith o dan Ran 2 yn atebol am gostau rhesymol a dynnir gan yr awdurdod gorfodi wrth baratoi unrhyw hysbysiad o dan Ran 2, neu wrth sicrhau cydymffurfedd â'r Rhan honno.

(2) Mae'r gweithredwr cyfrifol yn gyfrifol am y costau a dynnir gan yr awdurdod gorfodi o dan Ran 3, sef costau—

- (a) asesu a yw'r difrod yn ddifrod amgylcheddol;
- (b) darganfod pwy yw'r gweithredwr cyfrifol;
- (c) darganfod pa waith adfer sy'n briodol;
- (ch) gwneud unrhyw ymgynghori sy'n angenrheidiol; a
- (d) monitro'r adferiad, yn ystod y gwaith ac ar ei ôl.

(3) Mae costau'n golygu costau, y mae'r angen i sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gorfodi'n briodol ac yn effeithiol, yn eu cyfiawnhau.

Achosion cyfreithiol am gostau gan awdurdod gorfodi

26. Ni chaniateir i unrhyw achos cyfreithiol i adennill costau gael ei gychwyn gan yr awdurdod gorfodi o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i gyfnod o 5 mlynedd fynd heibio ers dyddiad—

- (a) cwblhau'r mesurau y mae'r achos yn ymwneud â hwy, neu
- (b) canfod p'un yw'r gweithredwr sy'n atebol am gyflawni'r mesurau,

p'un bynnag yw'r diweddaraf.

Costau y gellir eu hadennill oddi wrth berchennog i fod yn arwystl ar fangre

27.—(1) Pan ellir adennill unrhyw gostau o dan y Rheoliadau hyn gan awdurdod gorfodi oddi wrth berson sy'n berchennog ar fangre a bod yr awdurdod gorfodi yn cyflwyno hysbysiad i'r person hwnnw o dan y rheoliad hwn—

- (a) mae'r costau yn dwyn llog, yn ôl unrhyw gyfradd resymol y bydd yr awdurdod yn penderfynu arni, o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad hyd nes y caiff y swm cyfan ei dalu; a
- (b) yn ddarostyngedig i'r canlynol, mae'r costau a'r llog cronodig yn arwystl ar y fangre.

(2) Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan y rheoliad hwn—

(2) The responsible operator is liable for the reasonable costs of the enforcing authority for any action taken under regulation 23 unless the responsible operator was not liable for the action taken.

Costs concerned with administration

25.—(1) An operator liable to carry out works under Part 2 is liable for the reasonable costs incurred by the enforcing authority in preparing any notice under Part 2, or in ensuring compliance with that Part.

(2) The responsible operator is responsible for the costs incurred by the enforcing authority under Part 3 of—

- (a) assessing whether the damage is environmental damage;
- (b) establishing who is the responsible operator;
- (c) establishing what remediation is appropriate;
- (d) carrying out necessary consultation; and
- (e) monitoring the remediation, both during and after the work.

(3) Costs means costs that are justified by the need to ensure the proper and effective enforcement of these Regulations.

Proceedings for costs by an enforcing authority

26. No proceedings for the recovery of costs may be commenced by the enforcing authority under these Regulations after a period of 5 years has elapsed since—

- (a) the completion of the measures to which the proceedings relate, or
- (b) the identification of the operator liable to carry out the measures,

whichever is the later.

Costs recoverable from owner to be a charge on premises

27.—(1) Where any costs are recoverable under these Regulations by an enforcing authority from a person who is the owner of premises and the enforcing authority serves a notice on that person under this regulation—

- (a) the costs carry interest, at such reasonable rate as the authority may determine, from the date of service of the notice until the whole amount is paid; and
- (b) subject to the following, the costs and accrued interest are a charge on the premises.

(2) A notice served under this regulation must—

- (a) pennu swm y costau y mae'r awdurdod gorfodi yn hawlio y gellir eu hadennill;
- (b) datgan effaith paragraff (1) a chyfradd y llog a benderfynwyd gan yr awdurdod gorfodi o dan y paragraff hwnnw; ac
- (c) datgan effaith paragraffau (4) i (6).

(3) Ar y dyddiad y bydd awdurdod gorfodi yn cyflwyno hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad hefyd i bob person arall sydd, yn ôl gwybodaeth yr awdurdod, â buddiant yn y fangre a hwnnw'n fuddiant y gallai'r arwystl effeithio arno.

(4) Yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn o dan baragraff (7)(b) neu (c) isod, mae swm unrhyw gostau a bennir mewn hysbysiad o dan y rheoliad hwn a'r llog cronedig yn arwystl ar y fangre—

- (a) o ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad, neu
- (b) pan fo apêl yn cael ei dwyn o dan baragraff (6), o ddyddiad penderfynu'r apêl yn derfynol,

hyd nes y caiff y costau a'r llog eu hadennill.

(5) At ddibenion paragraff (4), mae tynnu apêl yn ôl yn cael yr un effaith â phenderfynu apêl yn derfynol.

(6) Caiiff person y cyflwynwyd hysbysiad neu gopi o hysbysiad iddo o dan y rheoliad hwn apelio yn erbyn yr hysbysiad i'r llys sirol cyn pen y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad cyflwyno.

(7) Ar apêl o'r fath caiff y llys—

- (a) cadarnhau'r hysbysiad heb ei addasu;
- (b) gorchymyn bod yr hysbysiad i gael effaith drwy roi swm gwahanol yn lle'r swm a bennwyd ynddo yn wreiddiol; neu
- (c) gorchymyn na fydd unrhyw effaith i'r hysbysiad.

(8) Mae gan awdurdod gorfodi, at ddibenion gorfodi arwystl o dan y rheoliad hwn, bob un o'r un pwerau a rhwymedïau o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(1), ac fel arall, fel petai'n forgeisai drwy weithred a chanddo bwerau gwerthu a lesio, derbyn ildïadau lesoedd a phenodi derbynnydd.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "perchennog" ("owner"), mewn perthynas ag unrhyw fangre, yw person (ac eithrio morgeisai nad yw mewn meddiant) y mae ganddo, p'un ai yn hawl ei hun neu fel ymddiriedolwr i unrhyw berson arall, hawlogoeth i gael crogrent y fangre neu, pan na fo'r fangre wedi'i lesio ar grogrent, y byddai ganddo'r hawlogoeth honno pe bai'r fangre'n cael ei lesio felly.

- (a) specify the amount of the costs that the enforcing authority claims is recoverable;
- (b) state the effect of paragraph (1) and the rate of interest determined by the enforcing authority under that paragraph; and
- (c) state the effect of paragraphs (4) to (6).

(3) On the date on which an enforcing authority serves a notice on a person under this regulation the authority must also serve a copy of the notice on every other person who, to the knowledge of the authority, has an interest in the premises capable of being affected by the charge.

(4) Subject to any order under paragraph (7)(b) or (c) below, the amount of any costs specified in a notice under this regulation and the accrued interest is a charge on the premises—

- (a) as from the end of the period of 21 days beginning with the date of service of the notice, or
- (b) where an appeal is brought under paragraph (6), as from the final determination of the appeal,

until the costs and interest are recovered.

(5) For the purposes of paragraph (4), the withdrawal of an appeal has the same effect as a final determination of the appeal.

(6) A person served with a notice or copy of a notice under this regulation may appeal against the notice to the county court within the period of 21 days beginning with the date of service.

(7) On such an appeal the court may—

- (a) confirm the notice without modification;
- (b) order that the notice is to have effect with the substitution of a different amount for the amount originally specified in it; or
- (c) order that the notice is to be of no effect.

(8) An enforcing authority has, for the purpose of enforcing a charge under this regulation, all the same powers and remedies under the Law of Property Act 1925(1), and otherwise, as if it were a mortgagee by deed having powers of sale and lease, of accepting surrenders of leases and of appointing a receiver.

(9) In this regulation, "owner" ("*perchennog*"), in relation to any premises, means a person (other than a mortgagee not in possession) who, whether in that person's own right or as trustee for any other person, is entitled to receive the rack rent of the premises or, where the premises are not let at a rack rent, would be so entitled if they were so let.

(1) 1925 p.20.

(1) 1925 c.20.

Adennill costau oddi wrth bersonau eraill

28. Caiff gweithredwr sy'n dod yn atebol i'r awdurdod gorfodi o dan y Rheoliadau hyn (p'un ai wrth gyflawni'r gwaith neu wrth dalu i'r awdurdod gorfodi) adennill y cyfan neu rywffaint o'r costau hynny oddi wrth unrhyw berson arall a achosodd y difrod hefyd.

Ceisiadau am gamau gan bartïon sydd â buddiant

29.—(1) Caiff unrhyw berson—

- (a) y mae difrod amgylcheddol yn effeithio arno neu y mae'n debyg o effeithio arno, neu
- (b) y mae ganddo fuddiant digonol fel arall,

hysbysu'r awdurdod gorfodi priodol o unrhyw ddifrod amgylcheddol sy'n cael ei achosi, neu sydd wedi'i achosi neu y mae bygythiad agos y byddai'n cael ei achosi.

(2) Rhaid bod y canlynol yn mynd gyda'r hysbysiad—

- (a) datganiad yn esbonio'r ffordd y bydd y difrod yn effeithio ar yr hysbysydd, neu'r rheswm bod gan yr hysbysydd fuddiant digonol; a
- (b) gwybodaeth sy'n ddigon i alluogi'r awdurdod gorfodi i ganfod lleoliad a natur y digwyddiad.

(3) Rhaid i'r awdurdod gorfodi ystyried yr hysbysiad a rhoi gwybod i'r hysbysydd am y camau, os oes rhai, y mae'n bwriadu eu cymryd.

(4) Cyn cymryd unrhyw benderfyniad, rhaid i'r awdurdod gorfodi, os yw'n ymarferol—

- (a) hysbysu'r gweithredwr o dan sylw o'r hysbysiad a'r wybodaeth sy'n dod gyda'r hysbysiad; a
- (b) gwahodd y gweithredwr hwnnw i gyflwyno sylwadau arnynt.

(5) Ni fydd paragraffau (3) a (4) yn gymwys—

- (a) os nad yw'r hysbysydd yn debyg o gael ei effeithio neu os nad oes ganddo fuddiant digonol;
- (b) os nad yw'r wybodaeth a ddarperir, ym marn yr awdurdod gorfodi, yn datgelu unrhyw ddifrod amgylcheddol neu fygythiad o ddifrod amgylcheddol; neu
- (c) os nad yw'n ymarferol, oherwydd natur frys y sefyllfa, i'r awdurdod gorfodi gydymffurfio â'r paragraffau hynny.

Rhoi hawliau mynediad etc. ac iawndal amdanynt

30.—(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol cael ei gydsyniad cyn bod unrhyw waith sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud, roi, neu ymuno i roi, hawliau o'r fath mewn perthynas ag unrhyw dir neu ddŵr a fyddai'n galluogi'r gweithredwr, neu berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr, wneud y gwaith hwnnw.

Recovery of costs from other persons

28. An operator who incurs liability to the enforcing authority under these Regulations (whether in carrying out work or in payment to the enforcing authority) may recover all or some of those costs from any other person who also caused the damage.

Requests for action by interested parties

29.—(1) Any person—

- (a) who is affected or likely to be affected by environmental damage, or
- (b) who otherwise has a sufficient interest,

may notify the appropriate enforcing authority of any environmental damage which is being, or has been caused or of which there is an imminent threat.

(2) A notification must be accompanied by—

- (a) a statement explaining the way the notifier will be affected by the damage, or the reason that the notifier has a sufficient interest; and
- (b) sufficient information to enable the enforcing authority to identify the location and nature of the incident.

(3) The enforcing authority must consider the notification and inform the notifier as to the action, if any, that it intends to take.

(4) Before taking any decision the enforcing authority must, if practicable—

- (a) notify the operator concerned of the notification and the accompanying information; and
- (b) invite that operator to submit comments on them.

(5) Paragraphs (3) and (4) do not apply if—

- (a) the notifier is not likely to be affected or does not have a sufficient interest;
- (b) in the opinion of the enforcing authority the information provided does not disclose any environmental damage or threat of environmental damage; or
- (c) as a result of the urgency of the situation, it is not practicable for the enforcing authority to comply with those paragraphs.

Grant of and compensation for rights of entry etc.

30.—(1) Any person whose consent is required before any works required by these Regulations may be carried out must grant, or join in granting, such rights in relation to any land or water as will enable the operator, or a person acting on behalf of the operator, to carry out that work.

(2) Mae gan berson sy'n rhoi, neu sy'n ymuno i roi, unrhyw hawliau sy'n ofynnol gan baragraff (1) hawlogaeth i gael gan y gweithredwr iawndal a benderfynir yn unol ag Atodlen 6.

Pwerau personau awdurdodedig

31.—(1) Caiff awdurdodau gorfodi awdurdodi personau at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae'r pwerau yn adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(1) yn gymwys o ran y Rheoliadau hyn, ac mae pwerau personau a awdurdodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn yr adran honno'n arferadwy gan bersonau a awdurdodwyd gan unrhyw awdurdod gorfodi.

(3) Mae'r pwerau hynny wedi'u hestyn i bob ardal y mae'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddi.

(4) Yn ychwanegol, caiff person a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru sy'n gorfodi'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r môr fynd ar fwrdd llong neu weithfa forol ar unrhyw bryd a'i harolygu.

(5) At ddibenion arfer y pwerau yn y rheoliad hwn, caiff y person awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i long neu weithfa forol—

- (a) stopio; neu
- (b) gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso mynd ar fwrdd y llong neu weithfa forol honno neu unrhyw long neu weithfa forol arall.

(6) Caiff person awdurdodedig sydd wedi mynd ar fwrdd llong neu weithfa forol, er mwyn glanio o'r llong neu'r weithfa, ei gwneud yn ofynnol i'r llong neu weithfa forol honno neu unrhyw long neu weithfa forol arall—

- (a) stopio; neu
- (b) gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n galluogi'r person awdurdodedig, ac unrhyw berson sydd gydag ef, i lanio.

(7) Caiff person awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd ar fwrdd llestr neu weithfa forol roi unrhyw gyfleusterau a chymorth ynghylch materion sydd o dan reolaeth y person hwnnw y byddai'r person awdurdodedig yn barnu y byddent yn hwyluso'r broses o arfer unrhyw bŵer a roddwyd gan y rheoliad hwn.

(8) Mae'n dramgwydd peidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir o dan y rheoliad hwn, neu ddarparu'n fwriadol wybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Darparu gwybodaeth i'r awdurdod gorfodi

32. Caiff awdurdod gorfodi ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd ar yr awdurdod gorfodi angen rhesymol amdani i gyflawni

(2) A person who grants, or joins in granting, any rights as required by paragraph (1) is entitled to compensation from the operator determined in accordance with Schedule 6.

Powers of authorised persons

31.—(1) Enforcing authorities may authorise persons for the purposes of enforcing these Regulations.

(2) The powers in section 108 of the Environment Act 1995(1) apply in relation to these Regulations, and the powers of persons authorised by the Environment Agency in that section are exercisable by persons authorised by any enforcing authority.

(3) Those powers are extended to all areas to which these Regulations apply.

(4) In addition, a person authorised by the Welsh Ministers enforcing these Regulations in relation to the sea may at any time board and inspect a ship or marine installation.

(5) For the purposes of exercising the powers in this regulation, the authorised person may require a ship or marine installation—

- (a) to stop; or
- (b) to do anything else that will facilitate the boarding of that or any other ship or marine installation.

(6) An authorised person who has boarded a ship or marine installation may, for the purposes of disembarking from the ship or installation, require that or any other ship or marine installation—

- (a) to stop; or
- (b) to do anything else that will enable the authorised person, and any person accompanying that person, to disembark.

(7) An authorised person may require any person on board a vessel or marine installation to afford such facilities and assistance with respect to matters under that person's control as the authorised person considers would facilitate the exercise of any power conferred by this regulation.

(8) It is an offence to fail to comply with instructions given under this regulation, or knowingly to provide false or misleading information.

Provision of information to the enforcing authority

32. An enforcing authority may require an operator to provide such information as it may reasonably require to enable the enforcing authority to carry out its

(1) 1995 p.25.

(1) 1995 c.25.

ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, a bydd methiant i ddarparu'r wybodaeth honno yn dramgwydd.

Gorfodi

33. Ni chaniateir i unrhyw gamau gorfodi gael eu cymryd o dan y Rheoliadau hyn 30 o flynyddoedd neu fwy ar ôl yr allyriad, yr achlysur neu'r digwyddiad o dan sylw.

Cosbau

34.—(1) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored—

- (a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau; neu
- (b) ar gollfarn ar ddiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath,

mae'r person hwnnw yn euog o'r tramgwydd yn ogystal â'r corff corfforaethol.

(3) At ddibenion paragraff (2), ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

functions under these Regulations, and failure to provide such information is an offence.

Enforcement

33. No enforcement action may be taken under these Regulations 30 years or more after the emission, event or incident concerned.

Penalties

34.—(1) A person guilty of an offence under these Regulations is liable—

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months or both; or
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both.

(2) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of—

- (a) any director, manager, secretary or other similar person of the body corporate, or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

that person is guilty of the offence as well as the body corporate.

(3) For the purposes of paragraph (2), "director" ("*cyfarwyddwr*"), in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

11 Ebrill 2009

11 April 2009

Difrod i rywogaethau a warchodir, cynefinoedd naturiol a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig

Damage to protected species, natural habitats and sites of special scientific interest

Difrod i rywogaethau a warchodir a chynefinoedd naturiol

1.—(1) Yn achos rhywogaeth a warchodir neu gynefin naturiol (ac eithrio difrod ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig y mae paragraff 4 yn gymwys iddo), rhaid i natur y difrod olygu bod ganddo effaith andwyol sylweddol ar gyrraedd neu gadw statws cadwraeth ffafriol y rhywogaeth a warchodir neu'r cynefin naturiol gan gymryd i ystyriaeth—

- (a) y statws cadwraeth adeg y difrod;
- (b) y gwasanaethau a ddarperir gan yr amwynderau y maent yn eu cynhyrchu;
- (c) eu gallu i adfywio'n naturiol;
- (ch) nifer yr unigolion, eu dwysedd neu'r ardal a gwmpesir;
- (d) rôl yr unigolion penodol neu'r ardal a ddifrodwyd mewn perthynas â'r rhywogaeth neu gadwraeth y cynefin a phrinder y rhywogaeth neu'r cynefin a aseswyd ar y lefel berthnasol p'un ai'n lleol, yn rhanbarthol neu ledled y Gymuned;
- (dd) gallu'r rhywogaeth i luosogi, ei hyfywedd neu allu'r cynefin i adfywio'n naturiol; ac
- (e) gallu'r rhywogaeth neu'r cynefin i ymadfer o fewn cyfnod byr i'r amser yr achoswyd y difrod i gyflwr a arweiniodd at ei gyflwr adeg y difrod neu gyflwr gwell heb unrhyw ymyrraeth ac eithrio cynyddu mesurau gwarchod.

Statws cadwraeth cynefinoedd naturiol

2.—(1) Statws cadwraeth cynefin naturiol yw swm y dylanwadau sy'n effeithio ar y cynefin hwnnw a'i rywogaethau nodweddiadol a'r rheini'n ddylanwadau a allai effeithio ar ddsbarthiad, strwythur a swyddogaethau naturiol hirdymor y cynefin hwnnw yn ogystal â goroesiad hirdymor ei rywogaethau nodweddiadol.

- (2) Mae ei statws cadwraeth yn ffafriol—
 - (a) os yw'r gwasgariad naturiol a'r ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu yn y gwasgariad naturiol hwnnw yn sefydlog neu'n cynyddu;
 - (b) os yw'r strwythur a'r swyddogaethau penodol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith cynnal hirdymor ar y cynefin naturiol yn bodoli a'u

Damage to protected species and natural habitats

1.—(1) In the case of protected species or natural habitat (other than damage on a site of special scientific interest to which paragraph 4 applies) the damage must be such that it has a significant adverse effect on reaching or maintaining the favourable conservation status of the protected species or natural habitat taking into account—

- (a) the conservation status at the time of the damage;
- (b) the services provided by the amenities they produce;
- (c) their capacity for natural regeneration;
- (d) the number of individuals, their density or the area covered;
- (e) the role of the particular individuals or of the damaged area in relation to the species or to the habitat conservation and the rarity of the species or habitat assessed at the relevant level whether local, regional or Community-wide;
- (f) the capacity of the species for propagation, its viability or the capacity of the habitat for natural regeneration; and
- (g) the capacity of the species or habitat to recover within a short time of the damage being caused to a condition that leads to its state at the time of the damage or better without any intervention other than increased protection measures.

Conservation status of natural habitats

2.—(1) A natural habitat's conservation status is the sum of the influences acting on that habitat and its typical species that may affect its long term natural distribution, structure and functions as well as the long term survival of its typical species.

- (2) Its conservation status is favourable if—
 - (a) the natural range and areas covered within that natural range are stable or increasing;
 - (b) the specific structure and functions which are necessary for the long term maintenance of the natural habitat exist and are likely to continue

bod yn debyg o barhau i fodoli hyd y gellir rhag-weld; ac

- (c) os yw statws cadwraeth ei rywogaethau nodweddiadol yn ffafriol.

Statws cadwraeth rhywogaethau

3.—(1) Statws cadwraeth rhywogaeth yw swm y dylanwadau sy'n effeithio ar y rhywogaeth o dan sylw ac a allai effeithio ar ddsbarthiad a helaethrwydd ei phoblogaethau yn y tymor hir.

(2) Mae statws cadwraeth yn ffafriol—

- (a) os yw'r data am ddynmeg poblogaeth y rhywogaeth o dan sylw yn dangos ei bod yn ymgynnal ei hun ar sail hirdymor fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol;
- (b) os nad yw gwasgariad naturiol y rhywogaeth yn cael ei leihau nac yn debyg o gael ei leihau hyd y gellir rhag-weld; ac
- (c) os oes, a'i bod yn debyg y bydd o hyd, gynefin digon mawr i gynnal ei phoblogaethau ar sail hirdymor.

Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig

4.—(1) Yn achos safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, rhaid i'r difrod fod yn ddifrod—

- (a) i'r rhywogaethau neu'r cynefinoedd a hysbyswyd o dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad Act 1981(1); neu
- (b) rhywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol.

(2) Rhaid bod y difrod wedi cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle (hynny yw, cydlynid ei strwythur ecolegol a'i swyddogaeth, ar draws ei arwynebedd cyfan, sy'n ei alluogi i gynnal cynefin, cymhlethfa o gynefinoedd neu lefelau poblogaethau'r rhywogaethau yr effeithiwyd arnynt).

Awdurdodiad pendant

5. Nid yw difrod i rywogaethau a warchodir a chynefinoedd naturiol, a difrod ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn cynnwys difrod a achoswyd gan weithred a awdurdodwyd yn bendant gan yr awdurdodau perthnasol yn unol â Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc.) 1994(2) neu Ran II o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

to exist for the foreseeable future; and

- (c) the conservation status of its typical species is favourable.

Conservation status of species

3.—(1) A species' conservation status is the sum of the influences acting on the species concerned that may affect the long term distribution and abundance of its populations.

(2) The conservation status is favourable if—

- (a) the population dynamics data on the species concerned indicate that it is maintaining itself on a long term basis as a viable component of its natural habitat;
- (b) the natural range of the species is neither being reduced nor is likely to be reduced for the foreseeable future; and
- (c) there is, and will probably continue to be, a sufficiently large habitat to maintain its populations on a long term basis.

Sites of special scientific interest

4.—(1) In the case of a site of special scientific interest, the damage must be to—

- (a) the species or habitats notified under section 28 of the Wildlife and Countryside Act 1981(1); or
- (b) protected species or natural habitats.

(2) The damage must have an adverse effect on the integrity of the site (that is, the coherence of its ecological structure and function, across its whole area, that enables it to sustain the habitat, complex of habitats or the levels of populations of the species affected).

Express authorisation

5. Damage to protected species and natural habitats, and damage on a site of special scientific interest, does not include damage caused by an act expressly authorised by the relevant authorities in accordance with the Conservation (Natural Habitats, etc.) Regulations 1994(2) or Part II of the Wildlife and Countryside Act 1981.

(1) 1981 p.69. Cafodd Rhan II o'r Ddeddf (sy'n cynnwys adran 28) ei mewnosod gan Atodlen 9 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a'i diwygio wedi hynny gan Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16).

(2) O.S. 1994/2716 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/6.

(1) 1981 c.69. Part II of the Act (which includes section 28) was inserted by Schedule 9 to the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c. 37) and subsequently amended by Schedule 11 to the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16).

(2) S.I. 1994/2716 as last amended by S.I. 2009/6.

Gweithgareddau sy'n achosi difrod

Activities causing damage

Gweithrediadau y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddynt

1. Mae'r Atodlen hon yn rhestru'r gweithgareddau y mae atebolrwydd amdanynt o dan reoliad 5(1).

Gweithredu gweithfeydd a ganiateir

2. Gweithredu gweithfeydd sy'n ddarostyngedig i drwydded yn unol â Chyfarwyddeb 2008/1/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch dulliau integredig o atal rheoli llygredd(1) (pob gweithgaredd a restrir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno ac eithrio gweithfeydd neu rannau o weithfeydd a ddefnyddir ar gyfer ymchwilio i gynhyrchion a phrosesau newydd, eu datblygu a'u profi).

Gweithrediadau rheoli gwastraff

3.—(1) Gweithrediadau rheoli gwastraff, gan gynnwys casglu, cludo, adfer a gwaredu gwastraff a gwastraff peryglus, goruchwyllo gweithrediadau o'r fath ac ôl-ofal dros safleoedd gwaredu, yn ddarostyngedig i drwydded neu gofrestrriad yn unol â Chyfarwyddeb 2006/12/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff(2) a Chyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus(3).

(2) Gweithredu safleoedd tirlenwi o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar gladdu gwastraff(4) a gweithredu gweithfeydd hylosgi o dan Gyfarwyddeb 2000/76/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylosgi gwastraff(5).

(3) Nid yw hyn yn cynnwys taenu slwtsh carthion o weithfeydd trin dŵr gwastraff trefol, sydd wedi'i drin yn unol â safon gymeradwy, at ddibenion amaethyddol.

(1) OJ Rhif L 24, 29.1.2008, t. 8.

(2) OJ Rhif L 114, 27.4.2006, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t. 3).

(3) OJ Rhif L 377, 31.12.91, t. 20, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t. 3).

(4) OJ Rhif L 182, 16.7.99, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1137/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 311, 21.11.2008, t. 1).

(5) OJ Rhif L 332, 28.12.2000, t. 91, fel y'i cywirwyd yn OJ Rhif L 145, 31.5.2001, t. 52.

Operations to which this Schedule applies

1. This Schedule lists the activities for which there is liability under regulation 5(1).

Operation of permitted installations

2. The operation of installations subject to permit in pursuance of Directive 2008/1/EC of the European Parliament and of the Council concerning integrated pollution prevention and control(1) (all activities listed in Annex I to that Directive with the exception of installations or parts of installations used for research, development and testing of new products and processes).

Waste management operations

3.—(1) Waste management operations, including the collection, transport, recovery and disposal of waste and hazardous waste, including the supervision of such operations and after—care of disposal sites, subject to permit or registration in pursuance of Directive 2006/12/EC of the European Parliament and of the Council on waste(2) and Council Directive 91/689/EEC on hazardous waste(3).

(2) The operation of landfill sites under Council Directive 1999/31/EC on the landfill of waste(4) and the operation of incineration plants under Directive 2000/76/EC of the European Parliament and of the Council on the incineration of waste(5).

(3) This does not include the spreading of sewage sludge from urban waste water treatment plants, treated to an approved standard, for agricultural purposes.

(1) OJ No L 24, 29.1.2008, p. 8.

(2) OJ No L 114, 27.4.2006, p. 9 as last amended by Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 312, 22.11.2008, p. 3).

(3) OJ No L 377, 31.12.91, p. 20 as last amended by Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 312, 22.11.2008, p. 3).

(4) OJ No L 182, 16.7.99, p. 1 as last amended by Regulation (EC) No 1137/2008 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 311, 21.11.2008, p. 1).

(5) OJ No L 332, 28.12.2000, p. 91 as corrected in OJ No L 145, 31.5.2001, p. 52.

Gwastraff mwyngloddio

4. Rheoli gwastraff echdynnol o dan Gyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnol(1).

Gollyngiadau y mae'n ofynnol cael awdurdodiad ar eu cyfer

5.—(1) Pob gollyngiad i mewn i'r dŵr wyneb mewndirol y mae'n ofynnol cael awdurdodiad ymlaen llaw ar ei gyfer yn unol â Chyfarwyddeb 2006/11/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygredd a achosir gan sylweddau peryglus penodol a ollyngir i amgylchedd dyfrol y Gymuned(2).

(2) Pob gollyngiad sylwedd i mewn i ddŵr daear y mae'n ofynnol cael awdurdodiad ymlaen llaw ar ei gyfer yn unol â Chyfarwyddeb 80/68/EEC ar ddiogelu dŵr daear rhag llygredd a achosir gan sylweddau peryglus penodol(3).

(3) Pob gollyngiad neu chwistrelliad llygrydd i mewn i ddŵr wyneb neu ddŵr daear y mae'n ofynnol cael trwydded, awdurdodiad neu gofrestrriad ar ei gyfer o dan Gyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer camau Cymunedol ym maes polisi dŵr(4).

Tynnu dŵr a'i Gronni

6. Tynnu dŵr a chronni dŵr yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw yn unol â Chyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu fframwaith ar gyfer camau Cymunedol ym maes polisi dŵr.

Sylweddau peryglus, cynhyrchion diogelu planhigion a chynhyrchion bywleiddiol

7. Gweithgynhyrchu, defnyddio, storio, prosesu, llenwi, gollwng i'r amgylchedd a chludo ar safle y deunyddiau canlynol—

- (a) sylweddau peryglus fel y'u diffinnir yn Erthygl 2(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 67/548/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau gweinyddol yr Aelod-wladwriaethau ynglŷn â dosbarthu, pecynnu a labelu sylweddau peryglus (5);

Mining waste

4. The management of extractive waste under Directive 2006/21/EC of the European Parliament and of the Council on the management of waste from extractive industries(1).

Discharges requiring authorisation

5.—(1) All discharges into the inland surface water that require prior authorisation in pursuance of Directive 2006/11/EC of the European Parliament and of the Council on pollution caused by certain dangerous substances discharged into the aquatic environment of the Community(2).

(2) All discharges of substances into groundwater that require prior authorisation in pursuance of Council Directive 80/68/EEC on the protection of groundwater against pollution caused by certain dangerous substances(3).

(3) All discharges or injections of pollutants into surface water or groundwater that require a permit, authorisation or registration under Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council of establishing a framework for Community action in the field of water policy(4).

Water abstraction and impoundment

6. Water abstraction and impoundment of water subject to prior authorisation in pursuance of Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council establishing a framework for Community action in the field of water policy.

Dangerous substances, plant protection products and biocidal products

7. Manufacture, use, storage, processing, filling, release into the environment and onsite transport of—

- (a) dangerous substances as defined in Article 2(2) of Council Directive 67/548/EEC on the approximation of the laws, regulations and administrative provisions of the Member States relating to the classification, packaging and labelling of dangerous substances (5);

(1) OJ Rhif L 102, 11.4.2006, t. 15.

(2) OJ Rhif L 64 ,4.3.2006, t. 52.

(3) OJ Rhif L 20, 26.1.80, t. 43, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 91/692/EC (OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t. 48).

(4) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t. 1 fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2008/105/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 348, 24.12.2008, t. 84).

(5) OJ Rhif L 196, 16.8.67, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 2008/1272 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 353, 31.12.2008, t. 1).

(1) OJ No L102, 11.4.2006, p. 15.

(2) OJ No L 64 ,4.3.2006, p. 52.

(3) OJ No L 20, 26.1.80, p. 43 as amended by Council Directive 91/692/EC (OJ No L 377, 31.12.1991, p. 48).

(4) OJ No L 327, 22.12.2000, p. 1 as amended by Directive 2008/105/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 348, 24.12.2008, p. 84).

(5) OJ No L 196, 16.8.67, p. 1 as last amended by Regulation (EC) No 2008/1272 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 353, 31.12.2008, p. 1).

- (b) paratoadau peryglus fel y'u diffinnir yn Erthygl 2(2) o Gyfarwyddeb 1999/45/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyd-ddynesu cyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau gweinyddol yr Aelod-wladwriaethau ynglŷn â dosbarthu, pecynnu a labelu paratoadau peryglus(1);
- (c) cynhyrchion diogelu planhigion fel y'u diffinnir yn Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/414/EEC ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad(2); ac
- (ch) cynhyrchion bywleiddiol fel y'u diffinnir yn Erthygl 2(1)(a) o Gyfarwyddeb 98/8/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rhoi cynhyrchion bywleiddiol ar y farchnad(3).

- (b) dangerous preparations as defined in Article 2(2) of Directive 1999/45/EC of the European Parliament and of the Council concerning the approximation of the laws, regulations and administrative provisions of the Member States relating to the classification, packaging and labelling of dangerous preparations(1);
- (c) plant protection products as defined in Article 2(1) of Council Directive 91/414/EEC concerning the placing of plant protection products on the market(2); and
- (d) biocidal products as defined in Article 2(1)(a) of Directive 98/8/EC of the European Parliament and of the Council concerning the placing of biocidal products on the market(3).

Cludiant

8. Cludo ar hyd ffordd, rheilffordd, dyfrffyrdd mewndirol, ar y môr neu drwy'r awyr nwyddau peryglus neu nwyddau llygru fel y'u diffinnir yn—

- (a) Atodiad A i Gyfarwyddeb y Cyngor 94/55/EC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau parthed cludo nwyddau peryglus ar hyd y ffordd(4);
- (b) yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 96/49/EC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau parthed cludo nwyddau peryglus ar hyd y rheilffordd(5); ac
- (c) Gyfarwyddeb y Cyngor 93/75/EEC ynghylch isafswm y gofynion ar gyfer llestrau sy'n mynd i borthladdoedd Cymunedol neu'n ymadael â hwy ac yn cario nwyddau peryglus neu nwyddau llygru(6).

Transport

8. Transport by road, rail, inland waterways, sea or air of dangerous goods or polluting goods as defined in—

- (a) Annex A to Council Directive 94/55/EC on the approximation of the laws of the Member States with regard to the transport of dangerous goods by road(4);
- (b) the Annex to Council Directive 96/49/EC on the approximation of the laws of the Member States with regard to the transport of dangerous goods by rail(5); and
- (c) Council Directive 93/75/EEC concerning minimum requirements for vessels bound for or leaving Community ports and carrying dangerous or polluting goods(6).

(1) OJ Rhif L 200, 30.7.99, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 2008/1272 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 353, 31.12.2008, t. 1).

(2) OJ Rhif L 230, 19.8.91, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2008/127/EC (OJ Rhif L 344, 20.12.2008, t. 89).

(3) OJ Rhif L 123, 24.4.98, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/31/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 81, 20.3.2008, t. 57).

(4) OJ Rhif L 319, 12.12.94, t. 7 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/89/EC (OJ Rhif L 305, 4.11.2006, t. 4).

(5) OJ Rhif L 235, 17.9.96, t. 25, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/90/EC (OJ Rhif L 305, 4.11.2006, t. 6).

(6) OJ Rhif L 247, 5.10.93, t. 19, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2002/84/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 324, 29.11.2002, t. 53).

(1) OJ No L 200, 30.7.99, p. 1 as last amended by Regulation (EC) No 2008/1272 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 353, 31.12.2008, p. 1).

(2) OJ No L 230, 19.8.91, p. 1 as last amended by Commission Directive 2008/127/EC (OJ No L 344, 20.12.2008, p. 89).

(3) OJ No L 123, 24.4.98, p. 1 as last amended by Directive 2008/31/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 81, 20.3.2008, p. 57).

(4) OJ No L 319, 12.12.94, p. 7 as last amended by Commission Directive 2006/89/EC (OJ No L 305, 4.11.2006, p. 4).

(5) OJ No L 235, 17.9.96, p. 25 as last amended by Commission Directive 2006/90/EC (OJ No L 305, 4.11.2006, p. 6).

(6) OJ No L 247, 5.10.93, p. 19 as last amended by Directive 2002/84/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 324, 29.11.2002, p. 53).

Organeddau a addaswyd yn enetig

9.—(1) Unrhyw ddefnydd amgaeedig, gan gynnwys cludo, sy'n cynnwys organeddau a addaswyd yn enetig (gan gynnwys micro-organeddau a addaswyd yn enetig fel y'u diffinnir gan Gyfarwyddeb y Cyngor 90/219/EEC ar ddefnydd amgaeedig o ficro-organeddau a addaswyd yn enetig(1)).

(2) Unrhyw weithred o ollwng yn fwriadol i'r amgylchedd, cludo a rhoi ar y farchnad organeddau a addaswyd yn enetig fel y'i diffinnir gan Gyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd(2).

Cludo llwythi gwastraff ar draws ffiniau

10. Cludo llwythi gwastraff ar draws ffiniau o fewn y Gymuned, i mewn iddi neu allan ohoni, a honno'n weithred y mae'n ofynnol cael awdurdodiad ar ei chyfer neu'n weithred sydd wedi ei gwahardd o dan Reoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gludo llwythi gwastraff(3).

ATODLEN 3

Rheoliad 19

Trwyddedau, etc.

1. Mae'r canlynol yn drwyddedau at ddibenion rheoliad 19(3) i'r graddau y maent yn ymwneud â gweithgaredd yn Atodlen 2—

- (a) trwydded a roddir o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007(4) neu gofrestrriad o dan y Rheoliadau hynny;
- (b) trwydded a roddir o dan Ran II o Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985(5);
- (c) cydsyniad gollwng dŵr, gorchymyn sychder cyffredin neu orchymyn sychder brys neu drwydded sychder o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(6);
- (ch) awdurdodiad o dan Reoliadau Dŵr Daear 1998(7);

-
- (1) OJ Rhif L 117, 8.5.90, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/174/EC (OJ Rhif L 59, 5.3.2005, t. 20).
 - (2) OJ Rhif L 106, 17.4.2001, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2008/27/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 81, 20.3.2008, t. 45).
 - (3) OJ Rhif L 190, 12.7.2006, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 669/2008 (OJ Rhif L 188, 16.7.2008, t. 7).
 - (4) O.S. 2007/3538.
 - (5) 1985 p.48.
 - (6) 1991 p.57, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).
 - (7) O.S. 1998/2746 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/3538.

Genetically modified organisms

9.—(1) Any contained use, including transport, involving genetically modified organisms (including genetically modified micro-organisms as defined by Council Directive 90/219/EEC on the contained use of genetically modified micro-organisms(1)).

(2) Any deliberate release into the environment, transport and placing on the market of genetically modified organisms as defined by Directive 2001/18/EC of the European Parliament and of the Council on the deliberate release into the environment of genetically modified organisms(2).

Transboundary shipment of waste

10. Transboundary shipment of waste within, into or out of the Community, requiring an authorisation or prohibited under Regulation (EC) No 1013/2006 of the European Parliament and of the Council on shipments of waste(3).

SCHEDULE 3

Regulation 19

Permits, etc.

1. The following are permits for the purposes of regulation 19(3) in so far as they relate to an activity in Schedule 2—

- (a) a permit granted under the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2007(4) or a registration under those Regulations;
- (b) a licence granted under Part II of the Food and Environment Protection Act 1985(5);
- (c) a water discharge consent, an ordinary or emergency drought order or a drought permit under the Water Resources Act 1991(6);
- (d) an authorisation under the Groundwater Regulations 1998(7);

-
- (1) OJ No L 117, 8.5.90, p. 1 as last amended by Commission Decision 2005/174/EC (OJ No L 59, 5.3.2005, p. 20).
 - (2) OJ No L 106, 17.4.2001, p. 1 as last amended by Directive 2008/27/EC of the European Parliament and of the Council (OJ No L 81, 20.3.2008, p. 45).
 - (3) OJ No L 190, 12.7.2006, p. 1 as last amended by Commission Regulation (EC) No 669/2008 (OJ No L 188, 16.7.2008, p. 7).
 - (4) S.I. 2007/3538.
 - (5) 1985 c.48.
 - (6) 1991 c.57 as amended by the Water Act 2003 (c.37).
 - (7) S.I. 1998/2746 as last amended by S.I. 2007/3538.

- (d) trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991;
- (dd) cymeradwyaeth o blaleiddiad o dan Reoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986(1), awdurdodiad o gynnyrch bywleiddiol o dan Reoliadau Cynhyrchion Bywleiddiol 2001(2) neu awdurdodiad o blaleiddiad o dan Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005(3).

- (e) a water abstraction or impoundment licence under the Water Resources Act 1991;
- (f) an approval of a pesticide under the Control of Pesticides Regulations 1986(1), an authorisation of a biocidal product under the Biocidal Products Regulations 2001(2) or an authorisation of a pesticide under the Plant Protection Products Regulations 2005(3).

ATODLEN 4

SCHEDULE 4

Rheoliad 18

Regulation 18

Adfer

Remediation

RHAN 1

PART 1

Adfer i gywiro difrod i adnoddau naturiol ac eithrio tir

Remediation of damage to natural resources other than land

Cymhwyso Rhan 1

1. Mae'r Rhan hon yn ymwneud ag adfer i gywiro difrod i adnoddau naturiol ac eithrio tir.

Application of Part 1

1. This Part relates to remediation of damage to natural resources other than land.

Risg i iechyd dynol

2. Rhaid i waith adfer ddileu unrhyw risg o bwys i iechyd dynol.

Risk to human health

2. Remediation must remove any significant risk to human health.

Yr amcan

3. Amcan adfer yw sicrhau'r un lefel o adnoddyn neu wasanaethau naturiol â'r hyn a fyddai wedi bodoli pe na bai'r difrod wedi digwydd.

Objective

3. The objective of remediation is to achieve the same level of natural resource or services as would have existed if the damage had not occurred.

Adferiad sylfaenol ac adferiad cydategol

4.—(1) Rhaid i'r adferiad gynnwys unrhyw adferiad sylfaenol neu adferiad cydategol a fydd yn sicrhau'r amcan neu'r ddau os bydd hynny'n ei sicrhau.

Primary and complementary remediation

4.—(1) The remediation must consist of such primary remediation or complementary remediation or both as will achieve the objective.

(2) Mae adferiad sylfaenol yn unrhyw fesur adfer sy'n peri i'r adnoddau naturiol a ddifrodwyd neu'r gwasanaethau amharedig ddychwelyd i'r cyflwr, neu tua'r cyflwr, a fyddai wedi bodoli pe na bai'r difrod wedi digwydd (mae ymadferiad naturiol yn ffurf a ganiateir ar adferiad sylfaenol mewn achosion priodol).

(2) Primary remediation is any remedial measure which returns the damaged natural resources or impaired services to, or towards, the state that would have existed if the damage had not occurred (natural recovery is a permitted form of primary remediation in appropriate cases).

(1) O.S. 1986/1510 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2001/880 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2005/1435 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 1986/1510 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) S.I. 2001/880 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) S.I. 2005/1435 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) Mae adferiad cydategol yn unrhyw fesur adfer a gymerir mewn perthynas ag adnoddau neu wasanaethau naturiol i wneud iawn am y ffaith nad yw adferiad sylfaenol yn arwain at edfryd yr adnoddau naturiol a ddifrodwyd neu'r gwasanaethau amharedig yn gyfan gwbl yn ôl i'r cyflwr a fyddai wedi bodoli pe na bai'r difrod wedi digwydd.

Adferiad cydadferol

5.—(1) Yn ychwanegol rhaid darparu adferiad cydadferol i wneud iawn am golledion interim o ran adnoddau neu wasanaethau naturiol sy'n digwydd o ddyddiad y difrod hyd nes y bydd yr adferiad wedi cyflawni ei amcan; ac yn y paragraff hwn ystyr "colledion interim" ("interim losses") yw colledion sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r adnoddau naturiol a ddifrodwyd na'r gwasanaethau yn gallu cyflawni eu swyddogaethau ecolegol na darparu gwasanaethau i adnoddau naturiol eraill nac i'r cyhoedd hyd nes y bydd yr adferiad sylfaenol wedi'i gwblhau.

(2) Nid yw adferiad cydadferol yn cynnwys iawndal.

Y dewis o ran adferiad

6.—(1) Rhaid gwerthuso'r opsiynau adfer gan ddefnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael, ac ar sail—

- (a) effaith pob opsiwn ar iechyd a diogelwch y cyhoedd;
- (b) y gost o weithredu'r opsiwn;
- (c) yn achos pob opsiwn, pa mor debyg yw hi y byddai'n llwyddo;
- (ch) i ba raddau y bydd pob opsiwn yn atal difrod yn y dyfodol, ac yn osgoi difrod ystlysol o ganlyniad i weithredu'r opsiwn;
- (d) i ba raddau y mae pob opsiwn o fudd i bob un o gydrannau'r adnoddyn naturiol neu'r gwasanaeth;
- (dd) i ba raddau y mae pob opsiwn yn cymryd i ystyriaeth bryderon cymdeithasol, economaidd a diwylliannol perthnasol a ffactorau perthnasol eraill sy'n ymwneud yn benodol â'r lleoliad;
- (e) faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r gwaith edfryd a wneir i gywiro'r difrod amgylcheddol fod yn effeithiol;
- (f) i ba raddau y mae pob opsiwn yn sicrhau bod safle'r difrod amgylcheddol yn cael ei edfryd; ac
- (ff) y cysylltiad daearyddol â'r safle a ddifrodwyd.

Canfod adferiad cydategol ac adferiad cydadferol

7.—(1) Os yw'n bosibl, rhaid i fesurau adfer cydategol a rhai cydadferol ddarparu adnoddau neu wasanaethau naturiol o'r un math, ansawdd a nifer â'r rhai a ddifrodwyd.

(3) Complementary remediation is any remedial measure taken in relation to natural resources or services to compensate for the fact that primary remediation does not result in fully restoring the damaged natural resources or impaired services to the state that would have existed if the damage had not occurred.

Compensatory remediation

5.—(1) In addition compensatory remediation must be provided to compensate for interim losses of natural resources or services that occur from the date of damage until remediation has achieved its objective; and in this paragraph "interim losses" ("colledion interim") means losses which result from the fact that the damaged natural resources or services are not able to perform their ecological functions or provide services to other natural resources or to the public until the primary or complementary remediation has been carried out.

(2) Compensatory remediation does not include financial compensation.

Choice of remediation

6.—(1) The remediation options must be evaluated using best available methods, and based on—

- (a) the effect of each option on public health and safety;
- (b) the cost of implementing the option;
- (c) the likelihood of success of each option;
- (d) the extent to which each option will prevent future damage, and avoid collateral damage as a result of implementing the option;
- (e) the extent to which each option benefits each component of the natural resource or service;
- (f) the extent to which each option takes account of relevant social, economic and cultural concerns and other relevant factors specific to the locality;
- (g) the length of time it will take for the restoration of the environmental damage to be effective;
- (h) the extent to which each option achieves the restoration of the site of the environmental damage; and
- (i) the geographical linkage to the damaged site.

Identification of complementary and compensatory remediation

7.—(1) If possible, complementary and compensatory remedial measures must provide natural resources or services of the same type, quality and quantity as those damaged.

(2) Pan na fo hynny'n bosibl, rhaid darparu adnoddau neu wasanaethau naturiol tebyg ond gwahanol (er enghraifft, drwy wrthbwyso lleihad yn ansawdd adnoddau neu wasanaethau naturiol drwy gynyddu'r nifer ohonynt).

(3) Pan na fo hynny'n bosibl, caniateir i adnoddau neu wasanaethau naturiol gwahanol gael eu darparu, a rhaid i brisiad ariannol y mesurau adfer fod yr un fath â phrasiad ariannol yr adnoddau neu'r gwasanaethau naturiol a gollwyd.

(4) Os yw'n ymarferol prisio'r adnoddau neu'r gwasanaethau naturiol a gollwyd, ond nad oes modd prisio'r mesurau adfer o fewn cyfnod amser rhesymol neu am bris rhesymol, yna caniateir darparu mesurau adfer y mae eu cost (yn lle eu prisiad ariannol) yn gyfwerth â'r adnoddau neu'r gwasanaethau naturiol a gollwyd.

(5) Yn achos adferiad cydategol ar safle newydd, pan fo'n bosibl ac yn briodol, dylai'r safle hwn fod yn ddaearyddol gysylltiedig â'r safle a ddifrodwyd.

Opsiynau

8.—(1) Wrth werthuso'r gwahanol opsiynau adfer a ganfyddwyd, caniateir penderfynu ar fesurau adfer sylfaenol nad ydynt yn edfryd yn llawn y dŵr neu'r rhywogaethau a warchodir neu'r cynefin naturiol a ddifrodwyd yn ôl i'w gyflwr neu i'w cyflwr adeg y digwyddiad neu benderfynu ar fesurau adfer sylfaenol sy'n ei edfryd neu'n eu hedfryd yn fwy araf (er enghraifft, pan ellid darparu'r adnoddau neu'r gwasanaethau naturiol cyfwerth yn rhywle arall am gost is).

(2) Dim ond os gwneir iawn am yr adnoddau neu'r gwasanaethau naturiol sy'n cael eu hepgor o ganlyniad i'r penderfyniad drwy gynyddu'r camau cydategol neu'r rhai cydadferol i ddarparu lefel debyg o adnoddau neu wasanaethau naturiol y ceir gwneud y penderfyniad hwn.

(3) Caiff yr awdurdod gorfodi benderfynu ar unrhyw bryd nad oes angen cymryd unrhyw fesurau adfer pellach—

- (a) os yw'r mesurau adfer sydd eisoes wedi'u cymryd wedi dileu unrhyw risg sylweddol o effeithio'n andwyol ar iechyd dynol, dŵr neu rywogaethau a warchodir a chynefinoedd naturiol; a
- (b) os byddai cost y mesurau adfer y mae eu hangen i edfryd yr hyn a ddifrodwyd yn ôl i'w gyflwr cyn y digwyddiad yn anghymesur o'u cymharu â'r buddion amgylcheddol y gellid eu cael.

(2) Where this is not possible, similar but different natural resources or services must be provided (for example, by offsetting a reduction in the quality of natural resources or services by increasing their quantity).

(3) Where this is not possible, different natural resources or services may be provided, and the remedial measures must have the same monetary valuation as the lost natural resources or services.

(4) If valuation of the lost natural resources or services is practicable, but valuation of the remedial measures cannot be made within a reasonable time or at a reasonable cost, then remedial measures may be provided whose cost (instead of monetary valuation) is equivalent to the value of the lost natural resources or services.

(5) In the case of complementary remediation at a new site, where possible and appropriate this site should be geographically linked to the damaged site.

Options

8.—(1) When evaluating the different identified remedial options, primary remedial measures that do not fully restore the damaged water or protected species or natural habitat to its state at the time of the incident or that restore it more slowly may be decided on (for example, when the equivalent natural resources or services could be provided elsewhere at a lower cost).

(2) This decision can be taken only if the natural resources or services foregone as a result of the decision are compensated for by increasing complementary or compensatory actions to provide a similar level of natural resources or services.

(3) The enforcing authority may at any time decide that no further remedial measures need be taken if—

- (a) the remedial measures already taken have removed any significant risk of adversely affecting human health, water or protected species and natural habitats; and
- (b) the cost of the remedial measures needed for restoration to its state before the incident would be disproportionate to the environmental benefits to be obtained.

RHAN 2

Adfer i gywiro difrod i dir

Adfer i gywiro difrod i dir

9.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â difrod i dir.

(2) Rhaid i'r adferiad sicrhau, o leiaf, bod yr halogion perthnasol yn cael eu gwaredu, eu rheoli, eu cyfyngu neu eu lleihau fel na fydd y tir mwyach, gan ystyried y defnydd cyfredol cyfreithlon a wneir ohono neu unrhyw ganiatâd cynllunio a oedd yn bodoli adeg y difrod, yn peri unrhyw risg sylweddol o effeithio'n andwyol ar iechyd dynol.

(3) Rhaid i bresenoldeb risgiau o'r fath gael ei asesu drwy weithdrefnau asesu risg gan ystyried nodweddion a swyddogaeth y pridd, y math o sylweddau, paratoadau, organeddau neu ficro-organeddau niweidiol a'r crynodiad ohonynt, y risg y maent yn ei beri a'r posibilrwydd o'u gwasgaru.

(4) Mae ymadferiad naturiol yn ffurf ar adfer a ganiateir mewn achosion priodol.

ATODLEN 5

Rheoliadau 19 a 21

Apelau

RHAN 1

Apelau os nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi

1. Mae'r Rhan hon yn gymwys os nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi.

2. Rhaid i hysbysiad o apêl gynnwys—

- (a) copi o'r hysbysiad neu'r hysbysiad adfer yr apelir yn ei erbyn; a
- (b) seiliau'r apêl.

3. Pan ddaw hysbysiad i law, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r hysbysiad am apêl i'r awdurdod gorfodi, a rhaid i'r awdurdod gorfodi anfon copi ar unwaith at unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod gorfodi fod ganddo fuddiant arbennig ym mhwnic yr apêl, a hysbysu Gweinidogion Cymru o bwy y mae wedi'i hysbysu.

4. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd o'r terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r apelydd ddarparu mewn ysgrifen—

PART 2

Remediation of damage to land

Remediation of damage to land

9.—(1) This Part applies in relation to damage to land.

(2) The remediation must ensure, as a minimum, that the relevant contaminants are removed, controlled, contained or diminished so that the land, taking account of its lawful current use or any planning permission in existence at the time of the damage, no longer poses any significant risk of adverse effects on human health.

(3) The presence of such risks must be assessed through risk-assessment procedures taking into account the characteristic and function of the soil, the type and concentration of the harmful substances, preparations, organisms or micro-organisms, their risk and the possibility of their dispersion.

(4) Natural recovery is a permitted form of remediation in appropriate cases.

SCHEDULE 5

Regulations 19 and 21

Appeals

PART 1

Appeals when the Welsh Ministers are not the enforcing authority

1. This Part applies when the Welsh Ministers are not the enforcing authority.

2. Notification of appeal must contain—

- (a) a copy of the notification or remediation notice appealed against; and
- (b) the grounds of appeal.

3. When notification is received, the Welsh Ministers must send a copy of the notification of appeal to the enforcing authority, and the enforcing authority must immediately send a copy to any person who appears to it to have a particular interest in the subject matter of the appeal, and notify the Welsh Ministers whom it has notified.

4. The Welsh Ministers must notify the appellant of the time limit within which the appellant must provide in writing—

- (a) datganiad o achos; a
- (b) pob gohebiaeth berthnasol.

5. Pan ddaw'r rhain i law, rhaid i Weinidogion Cymru anfon yr holl ddogfennau i'r awdurdod gorfodi, gan roi i'r awdurdod gorfodi derfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid iddo roi ymateb ysgrifenedig.

6. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r un pryd unrhyw berson a hysbyswyd o dan baragraff 3 o'r terfyn amser o dan baragraff 5 a'i wahodd i gyflwyno sylwadau erbyn y dyddiad hwnnw.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu wedyn a oes angen tystiolaeth bellach, a rhoi cyfarwyddiadau'n unol â hynny.

8. Rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r apêl wedyn i berson a benodwyd ganddynt i ymdrin â'r apêl, gan ddatgan wrth y person penodedig a oes rhaid ymdrin â'r apêl drwy weithdrefn ysgrifenedig ai peidio ynteu a oes rhaid cynnal gwrandawriad.

9. Ar ôl i'r apêl gael ei chwblhau gan y person penodedig, rhaid iddo benderfynu'r mater neu, os caiff ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn bod y penderfyniad wedi'i wneud, gyflwyno argymhelliad i Weinidogion Cymru, a rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r apêl.

10. Caiff y person sy'n penderfynu'r apêl wneud unrhyw orchymyn ynghylch costau'r partïon (gan gynnwys partïon sy'n cyflwyno sylwadau) y gwêl yn dda.

- (a) a statement of case; and
- (b) all relevant correspondence.

5. When these are received, the Welsh Ministers must send all the documents to the enforcing authority, giving the enforcing authority a time limit within which it must provide a written response.

6. At the same time the Welsh Ministers must notify any person notified under paragraph 3 of the time limit under paragraph 5 and invite them to make representations before that date.

7. The Welsh Ministers must then decide whether further evidence is needed, and give directions accordingly.

8. The Welsh Ministers must then refer the appeal to a person appointed by the Welsh Ministers to deal with the appeal, and specify to the appointed person whether or not the appeal must be dealt with by written procedure or whether a hearing must be held.

9. Following the conclusion of the appeal by the appointed person, the appointed person must decide the matter or, if so directed by the Welsh Ministers at any stage before the decision is made, make a recommendation to the Welsh Ministers, who must decide the appeal.

10. The person deciding the appeal may make such order as to the costs of the parties (including parties who make representation) as is fit.

RHAN 2

Apelau os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi

11. Os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi, mae'r gweithdrefnau yn Rhan 1 yn gymwys ac eithrio—

- (a) bod rhaid i Weinidogion Cymru benodi person cyn gynted â bod hysbysiad o apêl yn dod i law;
- (b) bod rhaid i'r person penodedig gyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru a bennwyd yn y Rhan honno; ac
- (c) bod rhaid i'r person penodedig benderfynu'r apêl ym mhob achos.

PART 2

Appeals when the Welsh Ministers are the enforcing authority

11. If the Welsh Ministers are the enforcing authority, the procedures in Part 1 apply except that—

- (a) the Welsh Ministers must appoint a person as soon as notification of appeal is received;
- (b) the appointed person must carry out the functions of the Welsh Ministers specified in that Part; and
- (c) the appointed person must in all cases decide the appeal.

Iawndal

Compensation

Iawndal am ganiatáu hawliau

1. Mae'r Atodlen hon yn rhagnodi—

- (a) y cyfnod pryd y caiff person sy'n caniatáu, neu sy'n ymuno i ganiatáu, unrhyw hawliau yn unol â rheoliad 30 wneud cais am iawndal am ganiatáu'r hawliau hynny;
- (b) y modd y caniateir i'r cais gael ei wneud, a'r person y caniateir i'r cais gael ei gyflwyno iddo; ac
- (c) y modd o benderfynu'r iawndal, ar gyfer penderfynu swm yr iawndal ac ar gyfer gwneud darpariaeth atodol ynglŷn â'r iawndal.

Dehongli

2. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "buddiant perthnasol" ("*relevant interest*") yw buddiant mewn tir y mae hawl wedi'i ganiatáu ohono neu sy'n rhwym o dan hawl a ganiatawyd; ac

ystyr "y grantwr" ("*the grantor*") yw'r person sy'n caniatáu, neu sy'n ymuno i ganiatáu, unrhyw hawl.

Y cyfnod ar gyfer gwneud cais

3. Rhaid i gais am iawndal gael ei wneud cyn diwedd cyfnod o 12 mis sy'n dechrau—

- (a) ar ddyddiad caniatáu'r hawliau yr hawlir iawndal amdanynt, neu
- (b) pan fo apêl yn erbyn yr hysbysiad y caniatawyd yr hawliau hynny mewn perthynas ag ef, ar y dyddiad y caiff yr apêl ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl,

p'un bynnag yw'r dyddiad diweddaraf.

Dull gwneud cais

4.—(1) Rhaid i gais am iawndal gael ei wneud mewn ysgrifen a'i draddodi yng nghyfeiriad gohebu hysbys diwethaf y person y rhoddwyd yr hawl iddo neu ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw.

(2) Rhaid i'r cais gynnwys—

- (a) copi o'r grant hawliau y mae'r grantwr yn gwneud cais am iawndal amdano ac o unrhyw blaniau sydd ynghlwm wrth y grant hwnnw;
- (b) disgrifiad o union natur unrhyw fuddiant mewn tir y gwneir cais am iawndal amdano; ac

Compensation for grant of rights

1. This Schedule prescribes—

- (a) the period within which a person who grants, or joins in granting, any rights pursuant to regulation 30 may apply for compensation for the grant of those rights;
- (b) the manner in which, and the person to whom, such an application may be made; and
- (c) the manner of determining such compensation, for determining the amount of such compensation and for making supplemental provision relating to such compensation.

Interpretation

2. In this Schedule—

"the grantor" ("*y grantwr*") means the person who grants, or joins in granting, any right; and

"relevant interest" ("*buddiant perthnasol*") means an interest in land out of which a right has been granted or which is bound by a right granted.

Period for making an application

3. An application for compensation must be made before the expiry of a period of 12 months beginning with—

- (a) the date of the grant of the rights in respect of which compensation is claimed, or
- (b) where there is an appeal against the notice in relation to which those rights were granted, the date on which the appeal is determined or withdrawn,

whichever is the later date.

Manner of making an application

4.—(1) An application for compensation must be made in writing and delivered at or sent by pre-paid post to the last known address for correspondence of the person to whom the right was granted.

(2) The application must contain—

- (a) a copy of the grant of rights in respect of which the grantor is applying for compensation and of any plans attached to such grant;
- (b) a description of the exact nature of any interest in land in respect of which compensation is applied for; and

- (c) datganiad o swm yr iawndal y gwneir cais amdano, gan wahaniaethu rhwng y symiau y gwneir cais amdanynt o dan bob un o is-baragraffau (a) i (d) o baragraff 5 a chan ddangos sut y cyfrifwyd y swm y gwneir cais amdano o dan bob is-baragraff.

Colled a difrod y mae iawndal yn daladwy amdanynt

5. Mae iawndal yn daladwy am golled a difrod o'r disgrifiadau canlynol—

- (a) unrhyw ddibrisiant yng ngwerth unrhyw fuddiant perthnasol y mae gan y grantwr hawlogaeth iddo ac sy'n ganlyniad i ganiatáu'r hawl;
- (b) colled neu ddifrod, mewn perthynas ag unrhyw fuddiant perthnasol y mae gan y grantwr hawlogaeth iddo—
 - (i) y gellir ei briodoli i grant yr hawl neu i arfer yr hawl honno;
 - (ii) nad yw'n cynnwys dibrisiant yng ngwerth y buddiant hwnnw; a
 - (iii) sy'n golled neu'n ddifrod y byddai hawlogaeth wedi bod gan y grantwr i gael iawndal ar ffurf iawndal am aflonyddu amdani neu amdano, pe bai'r buddiant hwnnw wedi'i gaffael yn orfodol o dan Ddeddf Caffael Tir 1981(1), yn unol â hysbysiad i drafod telerau a gyflwynwyd ar y dyddiad y rhoddwyd y grant o'r hawl;
- (c) difrod i unrhyw fuddiant mewn tir y mae gan y grantwr hawlogaeth i'w gael nad yw'n fuddiant perthnasol ac sy'n deillio o grant yr hawl neu o arfer yr hawl;
- (ch) unrhyw golled neu ddifrod a ddiodefwyd gan y grantwr, ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw fuddiant mewn tir y mae gan y grantwr hawlogaeth iddo, y gellir ei phriodoli neu ei briodoli i grant yr hawl neu i arfer yr hawl; a
- (d) swm unrhyw brisiad a chostau cyfreithiol a dynnwyd yn rhesymol gan y grantwr wrth ganiatáu'r hawl ac wrth baratoi'r cais am iawndal ac wrth negodi swm yr iawndal.

Y sail ar gyfer asesu'r iawndal

6.—(1) Bydd y rheolau a nodir yn adran 5 o Ddeddf Iawndal Tir 1961(2) (rheolau ar gyfer asesu iawndal) yn cael effaith, i'r graddau y maent yn gymwys ac yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau angenrheidiol, at ddibenion asesu unrhyw iawndal o'r fath yn yr un modd ag y maent yn effeithiol at ddibenion asesu iawndal ar gyfer caffael buddiant mewn tir yn orfodol.

(1) 1981 p.67.

(2) 1961 p.33.

- (c) a statement of the amount of compensation applied for, distinguishing the amounts applied for under each of sub-paragraphs (a) to (e) of paragraph 5 and showing how the amount applied for under each sub-paragraph has been calculated.

Loss and damage for which compensation payable

5. Compensation is payable for loss and damage of the following descriptions—

- (a) any depreciation in the value of any relevant interest to which the grantor is entitled which results from the grant of the right;
- (b) loss or damage, in relation to any relevant interest to which the grantor is entitled, which—
 - (i) is attributable to the grant of the right or the exercise of it;
 - (ii) does not consist of depreciation in the value of that interest; and
 - (iii) is loss or damage for which the grantor would have been entitled to compensation by way of compensation for disturbance, if that interest had been acquired compulsorily under the Acquisition of Land Act 1981(1), in pursuance of a notice to treat served on the date on which the grant of the right was made;
- (c) damage to any interest in land to which the grantor is entitled which is not a relevant interest and which results from the grant of the right or from the exercise of it;
- (d) any loss or damage sustained by the grantor, other than in relation to any interest in land to which the grantor is entitled, which is attributable to the grant of the right or the exercise of it; and
- (e) the amount of any valuation and legal costs reasonably incurred by the grantor in granting the right and in the preparation of the application for and the negotiation of the amount of compensation.

Basis on which compensation assessed

6.—(1) The rules set out in section 5 of the Land Compensation Act 1961(2) (rules for assessing compensation) have effect, so far as applicable and subject to any necessary modifications, for the purpose of assessing any compensation as they have effect for the purpose of assessing compensation for the compulsory acquisition of an interest in land.

(1) 1981 c.67.

(2) 1961 c.33.

(2) Pan fo'r buddiant perthnasol y mae iawndal i'w asesu mewn perthynas ag ef yn ddarostyngedig i forgais—

- (a) rhaid i'r iawndal gael ei asesu fel pe na bai'r buddiant yn ddarostyngedig i'r morgais;
- (b) ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy mewn perthynas â buddiant y morgaisai (yn wahanol i'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais); ac
- (c) rhaid i unrhyw iawndal sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais gael ei dalu i'r morgaisai neu, os oes mwy nag un morgaisai, i'r morgaisai cyntaf ac, yn y naill achos neu'r llall, rhaid ei gymhwysu fel petai'n enillion ar werthiant.

Penderfynu materion sy'n destun dadl

7.—(1) Rhaid cyfeirio unrhyw gwestiwn ynghylch iawndal sy'n destun dadl at y Tribiwnlys Tiroedd er mwyn iddynt hwy benderfynu arno.

(2) Mewn perthynas â phenderfynu unrhyw gwestiwn iawndal, bydd adrannau 2 a 4 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 (y weithdrefn ynglŷn â chyfeirio at y Tribiwnlys Tiroedd a'r costau) yn gymwys—

- (a) fel petai'r cyfeiriad yn adran 2 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 at adran 1 o'r Ddeddf honno yn gyfeiriad at is-baragraff (1) o'r paragraff hwn; a
- (b) fel petai'r cyfeiriadau yn adran 4 o'r Ddeddf honno at yr awdurdod caffael yn gyfeiriadau at y person y rhoddyd yr hawliau iddo.

(2) Where the relevant interest in respect of which any compensation is to be assessed is subject to a mortgage—

- (a) the compensation must be assessed as if the interest were not subject to the mortgage;
- (b) no compensation is payable in respect of the interest of the mortgagee (as distinct from the interest which is subject to the mortgage); and
- (c) any compensation payable in respect of the interest that is subject to the mortgage must be paid to the mortgagee or, if there is more than one mortgagee, to the first mortgagee and must, in either case, be applied as if it were proceeds of sale.

Determination of disputes

7.—(1) Any question of disputed compensation must be referred to and determined by the Lands Tribunal.

(2) In relation to the determination of any such question of compensation the provisions of sections 2 and 4 of the Land Compensation Act 1961 (procedure on references to the Lands Tribunal and costs) shall apply as if—

- (a) the reference in section 2 of the Land Compensation Act 1961 to section 1 of that Act were a reference to sub-paragraph (1) of this paragraph; and
- (b) references in section 4 of that Act to the acquiring authority were references to the person to whom the rights were granted.

